

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Cefndir

Mae hwn yn un o gyfres o bapurau testun sydd wedi eu paratoi er mwyn darparu gwybodaeth fanylach ac i egluro'r modd y mae'r cynllun yn ymdrin â gwahanol bynciau a materion sy'n effeithio ar Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd y papur hwn yn rhoi sylw penodol i **Dai Marchnad Lleol**. Bydd yn egluro'r wybodaeth gefndirol sydd o gymorth wrth adnabod materion, amcanion ac opsiynau'r ddogfen Cynllun Adnau.

Y Cynllun Adnau yw'r ail gam statudol paratoi y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd). Mae'r CDLI ar y Cyd yn siapio twf cymunedau o fewn Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i'r dyfodol, a bydd yn nodi'r polisiau a'r dynodiadau tir fydd yn sail i asesu ceisiadau cynllunio.

Bydd y Cynllun Adnau'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn penodi arolygydd annibynnol i asesu cadernid y Cynllun yn yr Archwiliad Cyhoeddus. Os bydd yr arolygydd yn ystyried bod y Cynllun yn un cadarn bydd yn argymhell ei fabwysiadu. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CDLI ar y Cyd yn disodli Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a Chynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996) ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Gellir darllen y papur testun hwn ar wahân neu ar y cyd â'r Papurau Testun a'r Papurau Cefndir eraill a baratowyd er mwyn rhoi darlun cyflawn o Ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Hwn yw fersiwn 2 o'r papur testun ac mae'n diweddu fersiwn 1 a gafodd ei gyflwyno hefo'r Cynllun Adnau. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau sydd i'w gweld yn y fersiwn hwn:

Rhan	Crynhoad o'r Newid
3. Rhesymeg a'r cyflwynhad dros gyflwyno polisi tai marchnad lleol	Ychwanegu at y cyflwynhad ar gyfer cyflwyno polisi o'r fath
6. Cymhwysor dangosyddion ar gyfer sefydlu os oes ardaloedd perthnasol ar gyfer cyflwyno polisi tai marchnad lleol	Ychwanegu rhan ar gyfer asesu aneddleuoedd penodol o fewn wardiau
7. Gweithredu'r polisi	Ychwanegu cyfeiriad at y modd o allu defnyddio gwahanol ddulliau i ymglymu'r unedau i fod yn rhai marchnad lleol. Dileu'r cyfeiriad uniongyrchol at ddefnyddio ymrwymiadau cynllunio.
Atodiad 4 – Asesiad o bentrefi arfordirol yn y cynllun adnau mewn perthynas â'r dangosyddion perthnasol	Atodiad newydd i gyd-fynd a'r asesiad o aneddleuoedd penodol o fewn wardiau

Atodiad 5 – Cyfanswm sgôr
y pentrefi arfordirol

Atodiad newydd i gyd-fynd a'r asesiad o aneddleoedd
penodol o fewn wardiau

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) / Joint Planning Policy Unit
Llawr 1af Swyddfa Cyngor Dinas Bangor / 1st Floor Bangor City Council Offices
Bangor
LL57 1DT

01286 685003 neu 01766 771000

polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Cyhoeddiad: Fersiwn 2

Mawrth 2016

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Sefyllfa gefndirol	2
3.	Rhesymeg a'r cyfiawnhad dros gyflwyno polisi tai marchnad lleol.....	3
4.	Enghreifftiau o awdurdodau cynllunio eraill.....	7
5.	Dangosyddion perthnasol	12
6.	Cymhwysor dangosyddion ar gyfer sefydlu os oes ardaloedd perthnasol ar gyfer cyflwyno polisi tai marchnad lleol	16
7.	Gweithredu'r polisi	27
8.	ATODIAD 1 - Polisi awdurdodau cynllunio eraill	30
9.	ATODIAD 2 – Mapiau coropleth ar gyfer y dangosyddion perthnasol .	44
10.	ATODIAD 3 – Asesiad o'r dangosyddion	71
11.	ATODIAD 4 - Asesiad o bentrefi arfordirol yn y cynllun adnau mewn perthynas â'r dangosyddion perthnasol.....	173
12.	ATODIAD 5 - Cyfanswm sgôr y pentrefi arfordirol.....	177

Rhestr o fapiau a thablau

Tabl 1	<i>Dangosyddion ar gyfer sefydlu os oes ardaloedd perthnasol ar gyfer cyflwyno tai marchnad lleol</i>
Tabl 2	<i>Y pwysau a roddir i'r gwahanol ddangosyddion</i>
Tabl 3	<i>Yr aneddleoedd ble fyddai Polisi Tai Marchnad Lleol yn berthnasol</i>
Tabl 4	<i>Y modd o ddefnyddio'r dangosyddion ar gyfer asesu'r Pentrefi Arfordirol</i>
Tabl 5	<i>Uchafswm maint unedau preswyl mewn perthynas â'r Polisi Tai Marchnad Leol (Ble nad oes cysylltiad gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ble nad yw datblygiad yn destun Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru)</i>

Map 1	<i>Lleoliad y wardiau perthnasol</i>
Map 2	<i>Lleoliad yr aneddleoedd perthnasol – Ynys Môn</i>
Map 3	<i>Lleoliad yr aneddleoedd perthnasol - Gwynedd</i>

1. Cyflwyniad

- 1.1 Amcan y papur testun hwn yw ymchwilio i ddichonolwydd cyflwyno polisi tai marchnad angen lleol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.
- 1.2 Fe nodai paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7, Gorffennaf 2014) y canlynol:

*"Mewn partneriaeth â'r gymuned, gan gynnwys y sector preifat, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i fannau neilltuol yn eu hardaloedd. Os oes angen i'r polisiau hyn wyro o'r polisiau cenedlaethol er mwyn diwallu **anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored** (na chyfngir fel rheol ar feddiannaeth), bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gyflawnhau'r gwyriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn sydd, yn eu barn hwy, yn briodol".*

- 1.3 Tra bod y cymal hwn yn rhoddi'r cyfle i gyflwyno polisi tai marchnad lleol, byddai'n rhaid seilio unrhyw bolisi o'r fath ar dystiolaeth gref a chadarn gyda chyflawnhad pendant drosto.

2. Sefyllfa gefndirol

- 2.1 Mae cyfngu unedau fforddiadwy newydd mewn cymunedau gwledig i bobl leol sydd mewn angen am unedau o'r fath yn bolisi sydd wedi ei sefydlu eisoes gan awdurdodau cynllunio Gwynedd ac Ynys Môn h.y. yng Nghynllun Lleol Ynys Môn (1996) a Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009). Mae'r ymagwedd hon yn cael ei hybu gan Bolisi Cynllunio Cymru, sydd yn nodi (paragraff 9.2.14) bod "*angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n briodol ei hymstryied wrth lunio polisiau'r cynllun datblygu*".
 - 2.2 Fe gefnogir hyn gan Nodyn Cyngor Technegol 2, sydd yn nodi (paragraff 10.16) fod yn "*rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol nodi yn eu cynllun datblygu eu diffiniad o 'angen lleol' am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, gan wneud hynny o fewn yr amcan cyffredinol o gyfrannu at greu cymunedau cynaliadwy. Gall y diffiniad hwn gynnwys:*
- *aelwydydd sydd yn yr ardal eisoes ac y mae arnynt angen llety ar wahân yn yr ardal;*
 - *pobl sy'n darparu gwasanaethau hanfodol wrth eu gwaith ac y mae angen iddynt fyw yn nes at y gymuned leol;*

- *pobl sydd â chysylltiad teuluol neu gysylltiadau â'r gymuned lleol ers tro;*
 - *pobl sydd wedi cael cynnig swydd yn yr ardal lleol ac y mae angen tai fforddiadwy arnynt".*
- 2.3 Rhaid sicrhau fod polisiau'r CDLI ar y Cyd yn cynnal ac yn hybu cymunedau'r ardal. Nodai paragraff 9.1.2 o Bolisi Cynllunio Cymru y "dylai awdurdodau cynllunio lleol hybu amgylcheddau preswyl cynaliadwy" a "dylai awdurdodau cynllunio lleol hybu cymunedau sydd â deiliadaeth gymysg". Fel y nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru (para. 10.4), credir ei bod yn bwysig cael amrywiaeth addas o ddaliadaeth a maint tai er mwyn sicrhau cymunedau cytbwys. Credir ei bod yn bwysig fod polisiau'r Cynllun yn adlewyrchu natur wledig yr ardal gan sicrhau fod ei gynnwys yn cwrdd ag yn cyfleoedd, o fewn y fframwaith bolisi, anghenion a dyheadau'r cymunedau gwledig.
- 2.4 Nodir fod mater allweddol KI 6 y CDLI ar y Cyd yn nodi'r angen i daclo "Cyflenwad annigonol o dai ac ymateb i'r angen am ystod well o dai o ran lleoliad, math, maint a fforddiadwyedd i bobl lleol". Mae amcan strategol SO15 o'r Cynllun yn nodi bod angen "Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth".
- 2.5 Ar sail y wybodaeth gefndirol hyn, credir fod potensial i ystyried cyflwyno polisi a fyddai'n hyrwyddo darpariaeth o unedau tai nad sydd i'w hymglymu i fod yn dai fforddiadwy ond bod rheolaeth dros bwy sydd yn eu meddiannu. Byddai angen darparu cyiawnhad cryf a phendant dros allu cyflwyno polisi o'r fath.
- ### 3. Rhesymeg a'r cyiawnhad dros gyflwyno polisi tai marchnad lleol
- 3.1 Nodai'r paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru y gallai'r cyiawnhad ar gyfer darparu tai marchnad lleol "ymwneud, er enghraift, â chyflenwad tir, effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol, neu gyfuniad o ffactorau. Gallai'r dystiolaeth hon gynnwys astudiaethau lleol fel y rheini sy'n deillio o'r strategaeth gymunedol neu'r rheini sy'n rhan o'r sylfaen wybodaeth ar gyfer y cynllun datblygu. Byddai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a allai ddarparu cyiawnhad dros wyro o'r polisi cenedlaethol".
- 3.2 Credir bod angen ystyried agweddau cefndirol yn fanwl er mwyn sefydlu'n gyntaf yr angen ar gyfer cyflwyno polisi o'r fath ac yn ail, os credir bod angen cyflwyno polisi, yna pa ffactorau y dylid eu hystyried er mwyn sicrhau fod y polisi'n effeithiol o ran ymdrin â phroblemau o fewn marchnadoedd tai yn ardal y Cynllun.

Yr angen ar gyfer cyflwyno polisi o'r fath

- 3.3 Yn y lle cyntaf mae angen ystyried y rhesymeg dros gyflwyno polisi tai marchnad i gwrdd ag anghenion lleol yn unig. Beth fyddai hyn yn ei gyflawni a pwy fyddai yn ei gynorthwyo?
- 3.4 Mae polisiau cynllunio cyfredol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn nodi bod angen 'lleol' yn gorfol cael ei gysylltu ag angen am uned fforddiadwy. Byddai angen darparu cyfiawnhad amlwg dros sicrhau bod unedau newydd nad sydd yn rhai fforddiadwy (h.y. tai marchnad) yn gallu cael eu clymu i berchnogaeth pobl leol yn unig.
- 3.5 Beth felly yw'r hyn a geisir ei gyflawni drwy gyflwyno polisi o'r fath? Mae'n rhaid i'r unedau a fyddai'n destun amod o'r fath gwrdd ag anghenion cydnabyddedig sydd yn bwysig i'w diwallu o fewn marchnadoedd tai perthnasol yn ardal y Cynllun. Yn hyn o beth, mae angen sefydlu os oes angen cyflwyno polisi o'r fath? Bydd yn rhaid seilio hyn ar dystiolaeth gref a chadarn.
- 3.6 Prif amcan polisi o'r fath fyddai i daclo unrhyw anghydwysedd o fewn marchnadoedd tai penodol o fewn ardal y Cynllun ac i gynnal a chryfhau cymunedau bregus. Byddai'r polisi yn ymateb i ffactorau cydnabyddedig sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd tai perthnasol. Byddai'n ehangu cyfleoedd mewn marchnadoedd tai ble ceir problemau dwys ac yn sicrhau darpariaeth o unedau sydd yn diwallu anghenion y gymuned.
- 3.7 Ni fyddai'r Polisi yn ceisio darparu tai fforddiadwy i bobl yn y cymunedau lleol sydd ag angen am dai o'r fath. Mae polisiau tai fforddiadwy penodol yn y Cynllun sydd yn ymdrin â'r agwedd hon. Yn hytrach, amcan y polisi fydd i sicrhau cynaladwyedd cymunedau bregus, lle mae problemau dwys yn bodoli o fewn y farchnad dai. Drwy hyn, credir y bydd yn creu budd cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn y cymunedau hyn. Fe allai yn ogystal gynorthwyo i gyflawni nod polisi cymdeithasol ehangach, fel cynnal neu gryfhau cymunedau Cymraeg.
- 3.8 Mae'r ystyriaethau canlynol yn nodi'r modd y byddai polisi o'r fath fod yn fuddiol mewn marchnadoedd tai penodol o fewn ardal y CDLI ar y Cyd.

Marchnad tai canolraddol

- 3.7 Mae'n debyg y byddai cyflwyno ymrwymiad marchnad 'lleol' yn cael effaith ar bris unedau preswyl. Mae gwybodaeth i law gan awdurdodau cynllunio eraill ble mae polisi o'r fath wedi ei gyflwyno yn awgrymu ei bod yn debyg y byddai amod o'r fath yn golygu gostwng pris eiddo gan y byddai'n cyfyngu ar bwy fyddai'n gymwys i'w

brynu (gweler rhan 4). Gall ymrwymiad o'r fath felly fod yn fod o sicrhau tai marchnad cost is o fewn y farchnad dai. Byddai'n rhaid sicrhau fod y tai hyn yn cwrdd ag angen lleol clir a pharhaus.

- 3.8 Gellir cysylltu hyn gyda'r 'Marchnad Dai Canolraddol'. Gellir ystyried ymrwymiad o'r fath er mwyn cyfarch y rhai hynny sydd mewn angen am dŷ ond nad sydd yn gallu cael mynediad i dai ar y farchnad agored (e.e. o ran problemau cael morgeisi) ond nad ydynt ychwaith yn gymwys i gael eu hystyried ar gyfer tŷ fforddiadwy cymdeithasol (e.e. ar sail eu hincwm).
- 3.9 Os nad oes tai 'canolraddol' addas ar gael mewn ardal benodol, gall hynny olygu fod pobl yn cael eu gorfodi iadael ardal er mwyn dod o hyd i dai addas. Yn aml mae'r grŵp o bobl sydd mewn angen am dai canolraddol yn bobl/ teuluoedd ifanc a gall colli'r bobl hyn o gymunedau gwledig gael effaith andwyol ar yr ardal yn nhermau cymdeithasol (e.e. llai o deuluoedd yn golygu llai o blant mewn ysgolion) ac economaidd (e.e. llai o wariant mewn gwasanaethau/cyflwynol lleol). Mae'n bwysig cael gwahanol haenau o fewn y farchnad dai fel ei fod yn gweithredu'n effeithiol er budd y gymuned. Tra ei bod yn bwysig darparu tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol, mae hefyd yn bwysig darparu unedau i gwrdd ag anghenion preswyl carfannau eraill mewn cymdeithas nad yw'n gymwys i gael tŷ fforddiadwy ond nad sydd ychwaith yn gallu fforddio tŷ ar y farchnad agored. Byddai hyn yn cynorthwyo i sicrhau marchnad tai mwy hyblyg fewn ardaloedd ble ceir problemau penodol.

Gweithwyr allweddol

- 3.10 Yn gysylltiedig gyda darparu tai marchnad canolraddol, gall polisi o'r fath gynorthwyo 'gweithwyr allweddol' i sicrhau unedau preswyl. Gall anallu'r garfan hon o'r boblogaeth i sicrhau tai arwain at broblemau economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd penodol, gan fod y rhain yn swyddi sydd yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r gymuned. Os na fydd gweithwyr allweddol yn gallu sicrhau tai yn yr ardal leol, yna bydd yn rhaid iddynt symud ymaith ganadael gwasanaethau hanfodol wedi eu tanstaffio.
- 3.11 Fel enghraifft, diffiniwyd 'gweithwyr allweddol' yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd fel:

"Pobl mae angen iddynt fod yn byw yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ar gyfer swydd sy'n llawn amser (37 awr neu fwy) ac yn barhaol:

1. *athro/athrawes mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu goleg trydyddol*
2. *nyrs neu aelod arall o staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol*
3. *heddwas*

4. gweithiwr/wraig y gwasanaeth prawf
5. gweithiwr/wraig cymdeithasol
6. seicolegydd addysg
7. therapydd galwedigaethol a gyflogir gan yr awdurdod lleol
8. swyddogion y gwasanaethau brys
9. gwaith arall a brofwyd sy'n allweddol i economi ardal y CDU"

Ehangu cyfleoedd yn y farchnad dai lleol / Cynorthwyo marchnad symudol ('fluid')

3.12 Credir y byddai cyflwyno ymrwymiad tai marchnad lleol o gymorth i bobl lleol o ran symud ymlaen yn y farchnad dai ac ehangu cyfleoedd yn lleol. Gallai ehangu'r cyfleoedd o fewn marchnadoedd tai lleol, er enghraifft os yw teulu angen uwchraddio i dŷ mwy neu os oes preswylwyr eisiau symud ymlaen o dŷ fforddiadwy. Fe all hyn ryddhau tai i rai sydd mewn angen am dai fforddiadwy yn yr ardaloedd ble mae'r problemau mwyaf dwys. Fe all o bosib gryfhau'r farchnad dai lleol a bod o gymorth o ran cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Gall fod yn fodd felly o gynorthwyo i greu cymunedau cynaliadwy.

Mewnfudo / Ail gartrefi

3.13 Mae pwysau a ddaw yn sgil mewnfudo ac ail gartrefi mewn ardaloedd penodol yn amlinu problemau o ran cynaliadwyedd aneddoedd / ardaloedd penodol e.e. lleihad mewn cyflenwad yn cynyddu prisiau tai, effaith negyddol ar wasanaethau lleol, anghydbwysedd yn nemograffeg yr ardal.

- A yw'r galw am ail dai wedi ei gyfeirio yn fwyfwy at eiddo a fyddai fel arall yn gallu cael ei ddefnyddio gan drigolion parhaol?
- Materion mewn perthynas â chyflogau isel mewn ardaloedd gwledig, cyfyngiadau ar y cyflenwad o dai newydd a galw allanol yn cyfuno i godi prisiau tai, a drwy hynny olygu bod llawer o bobl lleol dan anfantais mewn marchnadoedd tai lleol.
- Mae angen sefydlu lefel ble mae canran o ail dai yn achosi problemau o ran cynaliadwyedd y man hwnnw.
- Mewn ardaloedd gyda chyfrannedd uchel o ail dai mae'r effaith ar brisiau tai yn gallu bod yn arwyddocaol.
- Pobl yn ystyried bod yr ymdeimlad o gymuned yn cael ei erydu mewn ardaloedd gwledig.
- Cyfran uchel o ail dai mewn ardal yn gallu cael effaith negyddol ar wasanaethau pentref e.e. ysgol.

Materion ieithyddol a diwylliannol

- 3.14 Credir na ellir cysylltu polisi o'r fath yn uniongyrchol gyda'r iaith Gymraeg, h.y. ni ellir cyfyngu meddiannaeth unedau tai i siaradwyr Cymraeg yn unig. Nodir hyn ar sail geiriad paragraff 3.7.4 o Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Hydref 2013) sydd yn datgan y "Dylid gofalu nad yw polisiau'r CDLI sy'n ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai polisiau cynllunio geisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol". Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai sgil-effaith yr hyn yr ymgeisir drwy'r polisi hyn yn cael effaith positif ar yr iaith a diwylliant yr ardal, trwy roi cyfleoedd i bobl sy'n weithgar economaidd aros neu ddychwelyd i'r ardal.
- 3.15 O gofio bod yn rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (ac felly unrhyw bolisi, gan gynnwys polisi 'tai marchnad lleol' posib) fod yn 'gadarn' yn ôl Arolygydd Cynllunio, bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth lawn i bolisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae peryg fel arall y byddai polisi o'r fath yn cael ei wrthod ar sail y 'profion cadernid'.

4. Enghreiffiau o awdurdodau cynllunio eraill

- 4.1 Mae rhai enghreiffiau o awdurdodau cynllunio eraill yn y Deyrnas Unedig ble mae polisiau cynllunio wedi eu cyflwyno er mwyn hyrwyddo tai marchnad i gwrdd ag anghenion lleol. Er mai prin iawn yw'r enghreiffiau hyn, nodir fod yr awdurdodau sydd wedi cyflwyno polisi o'r fath gyda chymeriad tebyg i ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd h.y. maent yn awdurdodau gwledig sydd â nodweddion amgylcheddol a gweledol o safon uchel.
- 4.2 Yr unig Awdurdodau Cynllunio sydd wedi cyflwyno polisi tebyg a ddaethpwyd ar eu traws yw Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors, Awdurdod Parc Cenedlaethol Yorkshire Dales ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd. Cysylltodd yr Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd gyda'r tri awdurdod er mwyn derbyn barn bellach o ran y polisiau hyn. Drwy hyn fe amlwgwyd y ffaith fod Cyngor Dosbarth Ryedale hefyd wedi cyflwyno polisi tebyg. Nodir fod y manylion ynglŷn â pholisiau perthnasol yr Awdurdodau Cynllunio i'w gweld yn Atodiad 1.
- 4.3 Nodwyd yn ogystal fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ceisio cyflwyno polisi gydag agwedd tai marchnad lleol yn eu Cynllun Adnau ar gyfer eu Cynllun Datblygu Lleol. Diystyrwyd hyn gan yr Arolygydd yn dilyn yr Archwiliad Cyhoeddus i'r Cynllun. Mae hyn felly'n dangos pwysigrwydd tystiolaeth gadarn i gefnogi polisi o'r fath. Mae gwybodaeth ynglŷn â hyn hefyd i'w weld yn Atodiad 1.
- 4.4 Mae ymatebion yr Awdurdodau i gwestiynau penodol fel y ganlyn:

Cwestiwn 1: A oes yna unrhyw dystiolaeth / awgrym fod y polisi wedi lleihau gwerth eiddo o'r gwerth y byddai'n ddisgwylledig ar y farchnad agored cyffredinol?

4.5 Awdurdod Parc Cenedlaethol Yorkshire Dales:

Peth dystiolaeth, er, gan nad oes mecanwaith ar gyfer darparu gostyngiad ar werthiant, mae'r unedau yn dueddol o fynd i'r rhai sydd yn cynnig y pris uchaf. Mae'r farchnad yn y pen draw yn penderfynu, felly nid oes yna wastad gysondeb. Rydym yn tueddu i ddweud gostyngiad o 15-20% o werth y farchnad, ond nid ydyw llawer o'r unedau yn cyrraedd y farchnad (yn aml prosiectau hunan-adeiladu), felly nid yw wastad yn hawdd gwybod. Mae natur y cyfyngiad deiliadaeth yn golygu y gellir gweld canlyniadau anfwriadol. Gall 'sefydlu aelwyd ar wahân' olygu 'prynwr tro cyntaf gyda gwir anghenion tai' ond y mae ar adegau wedi cael ei ddehongli fel 'cwpl sy'n ysgaru gyda digon o asedau presennol'. Yn fras, mae'n declyn gweddol elfennol - mae'n sicr yn sicrhau'r amcan o osgoi deiliadaeth ail gartref / cartref gwyliau, ond o ran blaenoriaethu gwir anghenion tai, gall hyn fod ychydig yn fwy amrywiol.

4.6 Ymateb gan Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors:

Mae dystiolaeth ddiweddar gan y Prisiwr Rhanbarthol yn awgrymu fod amodau deiliadaeth lleol yn lleihau gwerth eiddo o 20%.

4.7 Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

Yn gyffredinol, fe dderbynir fod tai gyda chymal preswyliaeth lleol yn lleihau gwerth uned marchnad agored o oddeutu 20%, er yn ddiweddar rydym ar ddeall fod yn bresennol mae hyn tua 30%.

Cwestiwn 2: Beth oedd y cyfiawnhad a'r dystiolaeth a roddwyd dros allu gweithredu polisi o'r fath?

4.8 Awdurdod Parc Cenedlaethol Yorkshire Dales:

Roedd y cyfiawnhad yn eithaf eang - prisiau tai uchel, incwm isel, deiliadaeth ail gartrefi / gwyliau uchel, ynghyd â'r holl faterion cynaliadwyedd cymunedol sy'n deillio o hynny - materion sy'n gyffredin i ran fwyaf o ardaloedd gwledig ond efallai yn fwy difrifol yma. Roedd yn anodd canfod dystiolaeth benodol - roedd ein Hasesiadau Marchnad Tai Strategol yn awgrymu peth angen ar gyfer tai 'canolraddol' neu dai 'marchnad cost isel' sy'n disgyn rhwng darpariaeth fforddiadwy a marchnad agored. Rydym yn dibynnu'n eithaf helaeth ar y ffaith ei

fod yn barhad o'r strategaeth flaenorol a ymddengys i weithio'n eithaf da (rydym wedi mabwysiadu polisiau angen lleol mor bell yn ôl â 2005, ond defnyddiwyd y cyfyngiadau ar sail ad-hoc am gyfnod o oddeutu 15 mlynedd cyn hynny). Ni wnaeth yr Arolygydd archwilio'r dystiolaeth yn fanwl - mae'n debyg gan fod y polisi, yn gyffredinol, eisoes wedi ei dderbyn ac felly dim ond ychydig o wrthwynebiadau oedd gennym ar gyfer ei barhad. Os byddai yn ymagwedd hollol newydd, byddwn o bosib wedi cael mwy o broblemau. Rydym angen dystiolaeth o angen yn ogystal adeg cyflwyno'r cais cynllunio.

4.9 Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors

Fe gyflwynwyd amodau deiliadaeth lleol i Barc Cenedlaethol North York Moors drwy Gynllun Lleol 1992. Cyflwynwyd y polisi er mwyn sicrhau fod y cyfleoedd prin ar gyfer datblygiadau tai newydd yn cwrdd ag anghenion tai yn lleol yn hytrach na galw allanol. Mi roedd Parc Cenedlaethol North York Moors yn gweld, ac yn parhau i weld prisiau tai uchel iawn o'i gymharu ag ardaloedd eraill o Ogledd Swydd Efrog. Yn wreiddiol roedd yr amod preswyliaeth lleol yn gymwys ar sail cyfnod o dair blynedd ond roedd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Strategaeth Graidd yn awgrymu fod llawer o bobl yn rhentu'n lleol am dair blynedd wrth adeiladu eu heiddo. O'r herwydd fe ymestynnwyd y cyfnod i bum mlynedd. Yn hanesyddol roedd dros hanner yr unedau preswyl a gwblhawyd yn y Parc Cenedlaethol yn drosiannau ac o'r herwydd mae deiliadaeth lleol yn berthnasol i'r unedau hyn ers 2008. Mae'r amod preswyliaeth lleol hefyd yn atal tai newydd i gael eu defnyddio fel ail gartrefi sef rylder pobl leol.

4.10 Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

Mae poblogrwydd y Parc Cenedlaethol ar gyfer gwyliau ac i ymddeol wedi rhoddi pwysau mawr ar y farchnad dai o fewn y Parc Cenedlaethol. Mewn rhai ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol, mae perchnogaeth ail dai yn bell dros y meincnod o 20% [Ni ddylai'r canran o ail gartrefi fod yn 20% neu fwy gan fe ymddengys fod hyn yn effeithio cynaliadwyedd pentrefi (Ymddiriedolaeth Tai Gwledig Cumbria / Blenkinsop)], a chyn 1994, roedd y sawl a oedd yn byw mewn amryw o ddatblygiadau preswyl yn cael ei dominyddu gan bobl oedd wedi ymddeol. Yn 2012, roedd dros 40% o'r stoc dai bresennol mewn rhai plwyfi ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer meddiannaeth barhaol.

Tra mae'r pwysau anferth ar y stoc dai bresennol yn parhau, mae'n amhosib cwrdd â'r holl alw am dai gan fod terfyn ar y cyflenwad o dir ac mae'n rhaid osgoi difrod i gymeriad anheddle a'r dirwedd ehangach. Mae Polisi H20 o Gynllun Fframwaith ar y Cyd Cumbria ac Ardal y Llynnoedd 2011-2016 wedi sefydlu'r egwyddor fod datblygiadau tai o fewn y Parc Cenedlaethol dim ond yn cael eu caniatáu ble eu

bod ar gyfer preswyliaeth lleol, unai fel tai fforddiadwy neu er mwyn cwrdd ag anghenion y rhai hynny sydd yn gallu cydymffurfio ein mein prawf preswyliaeth lleol ond a fuasai yn gallu fforddio i brynu ar y farchnad agored. Fe wnaeth yr Arolygydd Cynllunio ar gyfer y Strategaeth Graidd (mabwysiadwyd 2010) ddod i'r casgliad fod y cyflawnhad ar gyfer y cyfyngiad polisi hwn yn parhau yn ddilys ac enbyd. Mae hyn ar sail prisiau tai uchel parhaus yn y Parc Cenedlaethol sydd wedi eu cynyddu gan lefelau uchel o berchnogaeth ail dai a'r amgylchedd arbennig sydd yn denu pobl i'r ardal a all fforddio prisiau uchel.

Polisiau perthnasol a hanesyddol:

- Polisi 42: Housing in the Lake District National Park - (Cynllun Fframwaith ar y Cyd Cumbria ac Ardal y Llynnoedd 1991-2006)
- Polisi H2: Housing in Larger Settlements (Except Infill) - (Cynllun Lleol Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd 1998)
- Polisi H3: Housing Exceptions on Important Open Spaces - (Cynllun Lleol Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd 1998)
- Polisi H4: Housing in Villages - (Cynllun Lleol Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd 1998)
- Polisi H20: Housing in the Lake District National Park – (Gynllun Fframwaith ar y Cyd Cumbria ac Ardal y Llynnoedd 2011-2016)
- Polisi H22: Exception sites within the Lake District National Park – (Gynllun Fframwaith ar y Cyd Cumbria ac Ardal y Llynnoedd 2011-2016)
- Polisi CS18: Housing provision – (Strategaeth Graidd 2010)

Cwestiwn3: O bersbectif monitro, faint o unedau sydd wedi eu caniatáu / eu hadeiladu yn uniongyrchol ar sail y polisi hwn?

4.11 Awdurdod Parc Cenedlaethol Yorkshire Dales:

Ers i ni ddechrau defnyddio'r polisi o ddifrif (2005), rydym wedi caniatáu ychydig dros 140 o unedau. O'r rhain, mae 70 wedi eu cwblhau. Er mwyn rhoi cyd-destun, mae cyfartaledd y caniatadau / unedau sy'n cael eu cwblhau o fewn yr awdurdod yn oddeutu 50 o unedau preswyl y flwyddyn.

4.12 Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors

Ers 1992 dim ond 187 uned sydd wedi eu cwblhau sydd yn destun cyfyngiad deiliadaeth lleol. Mae hyn yn y cyd-destun bod 11,744 o unedau preswyl wedi eu lleoli o fewn y Parc Cenedlaethol. Ers 2008 mae asesiadau cydymffurfio wedi eu gwneud ar bob uned deiliadaeth lleol pob tair blynedd ac mae hyn wedi arwain at gwpl o achosion ble roedd gorfodaeth yn angenrheidiol. Roedd y rhain ble roedd unedau wedi eu rhentu allan.

4.13 Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

Rhwng Tachwedd 2010 a Thachwedd 2013 caniatawyd 417 o dai newydd o dan Bolisi CS18 o'r Strategaeth Graidd:

- 152 tai fforddiadwy lleol
- 230 tai angen lleol
- 20 tai gweithwyr amaethyddol
- 12 llety ymglymedig
- 3 tŷ byw/gweithio

Rhwng Ebrill 2011 – Mawrth 2013 mae'r canlynol wedi eu hadeiladu:

- 52 tai fforddiadwy lleol
- 44 tai angen lleol
- 15 tai gweithwyr amaethyddol
- 4 tŷ byw/gweithio
- 1 tŷ gyda chymal preswyliaeth barhaol

Cwestiwn 4: A oes unrhyw broblemau wedi dod i'r amlwg o safbwyt y polisi hwn e.e. a oes problemau o ran pobl yn methu cael morgeisi ar gyfer eiddo?

4.14 Awdurdod Parc Cenedlaethol Yorkshire Dales:

Oes. Tra ymddengys fod y polisi wedi gweithio'n iawn hyd nes y gwyp yn y farchnad dai, mae nerfusrwydd gan fenthycwyr yn golygu, ar y cyfan, fod cymalau morgeisiau mewn meddiant bellach eu hangen fel os nad ydyw rhywun yn gallu talu'r benthyriad yn ôl, yna gellir ailfeddiannu'r eiddo a'i werthu ar y farchnad agored. Mae hyn wedi gwneud rhai unedau yn anodd ei gwerthu - mae hyn yn rhannol ar sail gwerthwyr yn disgwyl prisiau afrealistig er y cyfyngiad preswyliaeth (mae amrediad o ddulliau ariannol posib ar gyfer aelwydydd cymwysedig). Mae argaeedd morgeisi hefyd yn rhan o'r mater. Rydym wedi cael rhai ymdrechion i waredu cyfyngiadau, ond mae'r rhain, ar y cyfan, wedi eu diystyr u ac rydym wedi cael llwyddiannau ar apêl. Fodd bynnag, rydym wedi llacio'r meinu prawf ychydig, ac rydym o dan bwysau i fynd ymhellach.

4.15 Awdurdod Parc Cenedlaethol North York Moors

Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf rydym wedi clywed tystiolaeth anecdotaidd fod cael morgeisi ar gyfer tai preswyliaeth lleol yn dod yn fwy anodd. Mae perchnogion angen deposit sylweddol. Fodd bynnag rydym ar ddeall fod benthycwyr morgais

mwy lleol ac sydd a gwell dealltwriaeth o'r cyfyngiadau preswyliaeth, er enghraifft Cymdeithasau Adeiladu Leeds neu Skipton, yn fwy tebygol o fenthyca.

Mae'r anawsterau rydym wedi ei gael gyda'r cyfyngiadau preswyliaeth lleol wedi eu gweld lle mae yna nifer o unedau gyda'r amod yn yr un lleoliad. Cyn 2008, caniatawyd datblygiadau bychan hyd at bedwar uned i gael eu hadeiladu gyda'r amod preswyliaeth lleol. Ym mron pob un o'r datblygiadau hapfasnachol llai hyn, roedd y datblygwyr yn ei chael yn anodd iawn i werthu'r tai bobl leol. Mae hyn ar y cyfan wedi bod ar sail maint y tai, sydd yn tueddu i fod yn fawr iawn ac mae'r prisiau uchel, hyd yn oed hefo lleihad o 20%, yn golygu bod pobl leol yn parhau i fethu fforddio'r tai hyn. Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Yorkshire Dales gyfyngiadau arwynebedd llawr ar eu hunedau preswyliaeth lleol sydd yn ymddangos fel ei fod yn gweithio'n effeithiol a'i fod yn rhywbeth rydym yn debygol o'i ystyried pan fyddwn yn adolygu ein Strategaeth Graidd yn y dyfodol agos.

Yn nhermau creu rhagor o dai ar gyfer pobl leol, mae'r defnydd o'r polisi tai fforddiadwy ar safleoedd eithrio gwledig wedi bod yn fwy llwyddiannus, gyda dros 100 uned wedi eu cwblhau yn y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r safleoedd hyn wedi eu sicrhau drwy raglen Hwylusydd Tai Gwledig Gogledd Swydd Efrog sydd yn cyflogi hwyluswyr sydd yn gweithio gyda Chyngorau Plwyf a thirfeddianwyr lleol i ddod a safleoedd ymlaen ar gyfer tai fforddiadwy.

4.16 Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

Rydym yn ymwybodol nad yw amryw o'r benthycwyr ar y Stryd Fawr yn fodlon ariannu eiddo o'r newydd sydd â chymal preswyliaeth lleol. Fodd bynnag mae amryw o fenthycwyr lleol yn fodlon gwneud hyn. Ar gyfer y safleoedd ar hap sy'n fwy o ran maint, mae'r benthycwyr lleol yn fodlon benthyca ar gyfer 25% o'r cynllun.

5. Dangosyddion perthnasol

- 5.1 Dylid ystyried gwahanol ddangosyddion cymdeithasol ac economaidd er mwyn sefydlu os oes yna ardaloedd o fewn ardal y Cynllun ble mae problemau o fewn y farchnad dai yn golygu y gallai cyflwyno polisi tai marchnad lleol fod yn berthnasol. Dylid canolbwytio ar yr ardaloedd hynny ble ceir y problemau mwyaf o safbwyt y dangosyddion perthnasol, wrth ystyried ble ellir cyflwyno polisi tai marchnad lleol.
- 5.2 Mae'r dangosyddion a nodir yn nhabl 1 wedi eu hadnabod ar gyfer sefydlu os oes ardaloedd o fewn ardal y Cynllun ble mae'n berthnasol cyflwyno polisi tai marchnad lleol.

- 5.3 Fe ystyrir yr holl wybodaeth o'r dangosyddion hyn ar y cyd. Fe ganolbwytir ar yr ardaloedd hynny ble ceir y problemau mwyaf dwys o safbwyt y dangosyddion hyn.
- 5.4 O gofio cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, y cyflawnhad cryf sydd ei angen, ynghyd a'r angen i sicrhau integriti polisi o'r fath, credir bod angen canolbwytio ar ardaloedd penodol ble allai polisi o'r fath fod yn wirioneddol fuddiol o fewn y farchnad dai leol. Bydd yn rhaid sicrhau fod ymrwymiad o'r fath yn cwrdd ag 'angen' clir am dai, yn hytrach na cheisio cynorthwyo pobl leol yn unig.
- 5.5 Nodir bod y dangosyddion isod yn gallu cael eu dosbarthu i ardaloedd daearyddol o wahanol feintiau e.e. wardiau, ardaloedd cynnyrch ('output areas'), ardaloedd Cynghorau Cymuned. Credir bod angen asesu gwybodaeth ar gyfer yr ardaloedd daearyddol lleiaf posib er mwyn gallu canolbwytio ar yr ardaloedd hynny ble mae gwir angen cyflwyno polisi o'r fath. Byddai hyn yn amlygu'r ardaloedd ble mae gwir broblemau.

Tabl 1: Dangosyddion ar gyfer sefydlu os oes ardaloedd perthnasol ar gyflwyno polisi tai marchnad lleol

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod	Gwybodaeth bellach
Cymhareb fforddiadwyaeth	CACI Paycheck a'r Gofrestrfa Tir	Ward	2011 a 2012	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r dangosydd hwn yn cyfeirio at y gymhareb rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm aelwydydd. • Defnyddio gwybodaeth ar gyfer mwy nag un blwyddyn er mwyn cymryd i ystyriaeth amrywiant naturiol.

Papur Testun 17A: Tai Marchnad Lleol

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod	Gwybodaeth bellach
Cymhareb chwartel isaf	CACI Paycheck a'r Gofrestrfa Tir	Ward	2011 a 2012	<ul style="list-style-type: none"> Dyma'r gymhareb rhwng prisiau tai chwartel isaf a'r incwm aelwydydd chwartel isaf. Defnyddio gwybodaeth ar gyfer mwy nag un blwyddyn er mwyn cymryd i ystyriaeth amrywiant naturiol.
Canran o bobl sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad	CACI Paycheck a'r Gofrestrfa Tir	Ward	2011 a 2012	<ul style="list-style-type: none"> Wedi ei seilio ar y canran o aelwydydd sydd ag incwm o dan $1/3.5 \times$ chwartel isaf pris tai. Defnyddio gwybodaeth ar gyfer mwy nag un blwyddyn er mwyn cymryd i ystyriaeth amrywiant naturiol.
Ail gartrefi	Adrannau Treth y Cyngor, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	Ardaloedd Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned	Tachwedd 2013	<ul style="list-style-type: none"> Canran o ail gartrefi ar sail gwybodaeth Treth y Cyngor.
Mudo	Gwybodaeth ar sail procsi - canran wedi eu geni y tu allan i Gymru.	Ardaloedd allbwn	Cyfrifiad 2011	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes gwybodaeth uniongyrchol am yr agwedd hon, felly defnyddir procsi, sef canran wedi eu geni y tu allan i Gymru.

Papur Testun 17A: Tai Marchnad Lleol

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod	Gwybodaeth bellach
Cysylltiad rhwng prisiau tai a safon yr amgylchedd	Mynegai Amddifaddedd Lluosog Cymru 2011 o ran yr 'amgylchedd ffisegol'.	'Lower Super Output Areas'	Mynegai Amddifaddedd Lluosog Cymru 2011	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried y sgôr ar gyfer pob ardal berthnasol.
Bandiau Treth y Cyngor	Adrannau Treth y Cyngor, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	Ardaloedd Cyngorau Dinas / Tref / Cymuned	Tachwedd 2013	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried y canran o dai sydd mewn bandiau treth uchel h.y. bandiau G, H ac I.
Nifer y gwerthiannau tai	Y Gofrestrfa Tir	Wardiau	2012 a 2011	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried nifer y tai sydd wedi eu gwerthu mewn ardaloedd penodol. Os yn ffigwr sylweddol, yna nodir bod nifer digonol o dai ar gael i bobl sydd eu heisiau mewn ardal. Nifer isel o werthiannau hefyd yn awgrymu diffyg symud mewn marchnad dail leol. Defnyddio gwybodaeth ar gyfer mwy nag un blwyddyn er mwyn cymryd i ystyriaeth amrywiant naturiol.

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod	Gwybodaeth bellach
Canran llefydd gwag mewn ysgolion	Adrannau Addysg Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	Dalgylchoedd ysgolion cynradd	Cyfnod o 10 mlynedd 2003-13	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried y canran o lefydd gwag mewn ysgolion. Defnyddio gwybodaeth dros gyfnod o 10 mlynedd er mwyn cymryd i ystyriaeth amrywiant naturiol yn y nifer o ddisgyblion sydd yn mynchu ysgolion. Po fwyaf yw'r canran o lefydd gwag mewn ysgol, fe dybieithir bod llai o deuluoedd a phlant yn y cymunedau hynny.

6. Cymhwys o'r dangosyddion ar gyfer sefydlu os oes ardaloedd perthnasol ar gyfer cyflwyno polisi tai marchnad lleol

Asesiad cychwynnol o'r dangosyddion

6.1 Gwnaethpwyd asesiad cychwynnol o'r ardaloedd allai fod yn berthnasol ar gyfer polisi marchnad leol drwy fod mapiau coropleth o'r dangosyddion. Mae'r mapiau hyn yn amlygu'r ardaloedd 'gwaethaf' o safbwyt y gwahanol ddangosyddion. Wrth fapio'r wybodaeth hyn yn thematig, gellir sefydlu os oes ardaloedd ble mae'n amlwg fod problemau penodol yn bodoli a ble ellir ystyried cyflwyno polisi marchnad leol. Gweler y wybodaeth hyn a'r mapiau coropleth yn Atodiad 2.

6.2 Dangosir tri map mewn perthynas â phob dangosydd:

- Yn gyntaf nodir pa ardaloedd (o ran y raddfa ddaearyddol berthnasol) sydd uwchben ac o dan y canolrif/cymedr ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn o ran y dangosydd hwnnw. Mae'r map coropleth hwn yn rhoi darlun cychwynnol o'r ardaloedd hynny ble mae ystyriaethau o ran y mater dan sylw yn fwy dwys.
- Mae'r ail fap coropleth mewn perthynas â phob dangosydd yn rhannu'r ardaloedd fesul pedwar chwarterl. Mae hyn yn hidlo'r wybodaeth lawr ymhellach ac yn cyfleo'n glir yr ardaloedd hynny lle mae mater penodol yn fwyaf amlwg o fewn ardal y Cynllun.

iii) Mae'r ddua fap cyntaf yn darparu'r sail ar gyfer y wybodaeth a nodir yn y trydydd map coropleth. O gofio fod yn rhaid i bolisi tai marchnad lleol gael ei seilio ar gyfiawnhad cryf iawn, mae'r trydydd map wedi categoriiddio ardaloedd ar sail pa mor ddwys yw'r sefyllfa mewn perthynas â'r dangosydd perthnasol. Nodir yr ardaloedd hynny ble mae'r wybodaeth yn dangos ffigyrâu arwyddocaol iawn yn nhermau'r dangosyddion perthnasol. Mae trothwy wedi ei nodi er mwyn dangos yr ardaloedd mwyaf eithafol mewn perthynas â'r dangosyddion unigol.

Asesiad terfynol

- 6.3 Wedi casglu'r wybodaeth ar gyfer y dangosyddion perthnasol, mae angen ystyried yr holl wybodaeth ar y cyd er mwyn sefydlu os oes yna ardaloedd amlwg ble fyddai'n fanteisiol cyflwyno polisi o'r fath. Ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd polisi o'r fath yn cael ei sefydlu gan fod angen dystiolaeth gref a chadarn i gefnogi hyn.
- 6.4 Er mwyn sefydlu os oes ardaloedd o fewn ardal y Cynllun ble mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellir cyflwyno polisi o'r fath, mae angen sgorio ardaloedd ar sail y canlyniadau ar gyfer y gwahanol ddangosyddion. Nodir bod rhai o'r dangosyddion yn fwy arwyddocaol nac eraill wrth ystyried yr agwedd hon, felly mae pwysau gwahanol wedi ei roi i'r dangosyddion i adlewyrchu eu pwysigrwydd cymharol.

Tabl 2: Y pwysau a rhoddir i'r gwahanol ddangosyddion

Dangosydd	Cyfnod	Pwysau
Cymhareb fforddiadwyaeth	2012	X 1.5
	2011	X 1.5
Cymhareb chwartel isaf	2012	X 1.5
	2011	X 1.5
Canran o bobl sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad	2012	X 1.5
	2011	X 1.5
Ail gartrefi	Tachwedd 2013	X 4
Bandiau Treth y Cyngor	Tachwedd 2013	X 1.5

Dangosydd	Cyfnod	Pwysau
Mudo	2011	X 3
Nifer y gwerthiannau tai	2011 & 2012	X 1
Cysylltiad rhwng prisiau tai a safon yr amgylchedd	2011	X 1
Canran llefydd gwag mewn ysgolion	2003-13	X 1

- 6.5 Mae'r dangosyddion hefyd yn berthnasol ar gyfer ardaloedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, o gofio nad yw'r Parc Cenedlaethol yn ffurio rhan o ardal y CDLI ar y Cyd, nid yw gwybodaeth ar gyfer yr ardaloedd ystadegol o fewn Eryri wedi eu nodi o fewn y papur testun hwn nag ychwaith wedi eu hystyried i bwrrpas y polisi Tai Marchnad Leol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo gwybodaeth ar gyfer ardaloedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn effeithio'n uniongyrchol ar ardal y CDLI ar y Cyd (gweler Atodiad 3). Noder fod rhai ardaloedd ystadegol (e.e. wardiau) wedi eu lleoli naill ochr i ffin y Parc Cenedlaethol. Gan fod rhan o'r ardaloedd hyn wedi eu lleoli o fewn ardal y CDLI ar y Cyd, mae gwybodaeth ar gyfer yr ardaloedd ystadegol hyn wedi eu cynnwys.
- 6.6 Gan fod y wybodaeth sy'n deillio o'r dangosyddion yn seiliedig ar wahanol lefelau daearyddol, mae angen cysondeb i allu cymharu'r dangosyddion yn effeithiol ac i ganfod os oes ardaloedd ble fyddai'n fanteisio cyflwyno polisi tai marchnad lleol. Gan fod y mwyafif o'r dangosyddion wedi ei seilio ar lefel ward, mae'r sgôr cyfunol wedi ei seilio ar y lefel daearyddol hwn. Credir hefyd fod graddfa ddaearyddol wardiau yn addas o safbwyt canolbwytio ar ardaloedd ble all amgylchiadau fod yn berthnasol ar gyfer cyflwyno polisi tai marchnad leol. (Yn Ynys Môn, defnyddir y wardiau a oedd yn amlwg cyn ad-drefnu'r wardiau yn 2013).
- 6.7 Os nad yw dangosydd wedi ei seilio ar ffurf wardiau, yna mae'n rhaid cymhwysor'r wybodaeth berthnasol i gyd-fynd â'r lefel daearyddol hon e.e. yw dwy ardal Cyngor Cymuned yn ffurio un ward, yna gellir cyfuno'r wybodaeth.
- 6.8 Mae pob dangosydd wedi ei sgorio yn unigol ar sail wardiau. Mae'r ward 'waethaf' (h.y. ble ceir sefyllfa / amgylchiadau gwaethaf) ar gyfer pob dangosydd yn derbyn sgôr o 100. Mae pob ward wedi hynny yn derbyn sgôr ar sail ei gymhareb gyda'r sgôr 'waethaf'. Caiff pob sgôr ar gyfer y dangosyddion unigol eu hadio at ei gilydd er mwyn canfod y sgôr derfynol ar gyfer pob ward. Mae'r modd y sefydlir y sgôr ar


gyfer pob ward i'w weld yn Atodiad 3. Ceir yno hefyd wybodaeth bellach ynglŷn â'r modd y sefydlwyd y sgoriau penodol ar gyfer y dangosyddion unigol.

- 6.9 Gan nad yw gwybodaeth wastad ar gael ar ffurf wardiau, yna mae achosion ble mae'n rhaid dangos dau sgôr ar gyfer wardiau penodol h.y. sgôr uchaf a sgôr isaf. Er enghraifft, os yw ward wedi ei leoli o fewn dau neu ragor o ardaloedd Cyngor Cymuned, yna bydd yn rhaid ystyried y data ar gyfer pob Cyngor Cymuned perthnasol.
- 6.10 Mae'r wybodaeth wedi ei gyflwyno mewn dau fodd - gyda phwysau ar gyfer y gwahanol ddangosyddion (fel nodir yn Nhabl 2) a heb unrhyw bwysau ar eu cyfer. Wrth ystyried yn ogystal y ffaith fod 'sgôr uchaf' a 'sgôr isaf' wedi ei roddi ar gyfer rhai wardiau mewn perthynas â dangosyddion penodol, mae'r wybodaeth yn Atodiad 3 wedi ei rannu fel y ganlyn:
- Sgôr uchaf gyda phwysau
 - Sgôr isaf gyda phwysau
 - Sgôr uchaf heb bwysau
 - Sgôr isaf heb bwysau

Canlyniadau

- 6.11 Ar sail yr asesiadau hyn (gweler Atodiad 3), amlygwyd y wardiau canlynol fel y rhai fyddai'n berthnasol ar gyfer polisi tai marchnad lleol:
- Abersoch
 - Llanengan
 - Aberdaron
 - Rhosneigr
 - Llanbedrog
 - Moelfre
 - Tudweiliog
 - Trearddur
 - Biwmares

Map 1: Lleoliad y wardiau perthnasol



6.12 O fewn y wardiau hyn, byddai'r Polisi Tai Marchnad Lleol yn berthnasol ar gyfer yr aneddleoedd canlynol:

Tabl 3: Yr aneddleoedd ble fyddai Polisi Tai Marchnad Leol yn berthnasol

Ward	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Pentrefi
Abersoch	• Abersoch	-
Llanengan	-	<ul style="list-style-type: none"> • Sarn Bach • Mynthro • Llangian
Aberdaron	-	<ul style="list-style-type: none"> • Aberdaron

		<ul style="list-style-type: none"> • Rhosneigrwaun
Rhosneigr	<ul style="list-style-type: none"> • Rhosneigr 	-
Llanbedrog	-	<ul style="list-style-type: none"> • Llanbedrog
Moelfre	-	<ul style="list-style-type: none"> • Moelfre
Tudweiliog	-	<ul style="list-style-type: none"> • Tudweiliog
Trearddur	-	<ul style="list-style-type: none"> • Trearddur • Pont Rhyd y Bont
Biwmares	<ul style="list-style-type: none"> • Biwmares 	-

Asesu aneddleoedd o fewn wardiau

- 6.13 Tra bod yr asesiad o ran pa aneddleoedd sydd yn berthnasol i'w hystyried o fewn y polisi hwn wedi ei seilio ar wybodaeth ar ffurf ddaearyddol wardiau, fe dderbynir fod gwahaniaethau amlwg yn gallu bodoli o fewn rhai wardiau o safbwyt natur gymdeithasol ac economaidd gwahanol aneddleoedd.
- 6.14 Ar sail hyn, derbynir y gallai fod yna achosion ble mae rhai aneddleoedd penodol yn gymwys i'w cynnwys o fewn y Polisi Tai Marchnad Leol ond fod y sgôr ar gyfer y ward yn ehangach yn cuddio'r problemau sydd yn bodoli o fewn y farchnad dai benodol honno. Er mwyn sicrhau fod y polisi yn gweithredu'n effeithiol, mae'n bwysig canfod felly os oes yna unrhyw aneddleoedd 'cudd' o'r fath.
- 6.15 Yn hyn o beth, canolbwytir ar aneddleoedd sydd wedi eu hadnabod fel 'pentrefi arfordirol' yn y Cynllun Adnau. Fe asesir yr aneddleoedd hyn ar sail fod gan y pentrefi arfordirol hyn ganran uwch na chyfartaledd yr ardal o gartrefi gwyliau neu ail gartrefi. Mae'r aneddleoedd hyn fel y ganlyn:
- Aberffraw
 - Borth-y-Gest
 - Edern
 - Llanddona
 - Llangoed
 - Malltraeth
 - Morfa Bychan
 - Morfa Nefyn
- 6.16 Seliwyd y dull o ddewis unrhyw anheddle ychwanegol ar yr un fformat a ddilynwyd o ran dewis y wardiau perthnasol. Fodd bynnag, gan fod yr asesiad hwn yn ystyried graddfa ddaearyddol ac ystadegol sydd yn llai na'r asesiad blaenorol, rhaid oedd ymgymryd â dull asesu sydd ychydig yn wahanol. Gan fod llai o

gysondeb o ran yr amrediad o dystiolaeth / gwybodaeth sydd ar gael ar y lefel daearyddol hwn, mae'n hollbwysig ymgymryd ag asesiad gwthrhyrchol wrth benderfynu os dylid cynnwys unrhyw anheddle ychwanegol yn y polisi a'i pheidio.

- 6.17 Yn y lle cyntaf, defnyddir ardaloedd allbwn fel y sail ar gyfer asesu'r aneddleoedd penodol. Ardaloedd allbwn yw'r ardaloedd ystadegol lleiaf ar gyfer gwybodaeth o'r Cyfrifiad. Ble fod yna fwy nag un ardal allbwn o fewn anheddle, cyfunwyd y wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd ble fo hynny'n berthnasol.
- 6.18 Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth ar gyfer pob un o'r dangosyddion yn cael ei gyfleo ar gyfer y lefel hwn:
- Nid yw gwybodaeth o ran 'canolrif incwm aelwydydd' yn cael ei ddarparu ar gyfer ardaloedd allbwn – lefel wardiau yw'r lefel ddaearyddol isaf ble fo'r wybodaeth hyn ar gael. Ni ellir felly sefydlu'r canran o aelwydydd sydd wedi eu 'prisio allan o'r farchnad' yn yr aneddleoedd uchod h.y. nid oes modd sefydlu pa ganran o aelwydydd unrhyw bentref penodol sydd ag incwm sydd yn is na 1/3.5 x chwartel isaf pris tai.
 - Y dangosydd 'amgylchedd' - nid yw'r wybodaeth berthnasol ar gael ar lefel is nag Ardal Cynnyrch Arbennig Isaf ('Lower Super Output Areas' - LSOA).
 - Nid oes ysgol gynradd wedi ei leoli ym mhob un o'r aneddleoedd dan sylw.
- 6.19 Mewn rhai achosion, megis gyda gwybodaeth ail gartrefi a bandiau treth y Cyngor yng Ngwynedd, roedd modd dewis ac asesu gwybodaeth a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r pentref ei hun. Fodd bynnag, rhaid oedd defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y Cyngor Cymuned yn ei gyfanwydd ar gyfer yr aneddleoedd yn Ynys Môn (sydd eto'n dangos pwysigrwydd asesiad gwthrhyrchol).
- 6.20 Ni ellir ystyried gwybodaeth o ran gwerthiannau tai mewn aneddleoedd yn uniongyrchol gyda'r wybodaeth ar gyfer wardiau gan, yn eu hanfod, mae wardiau o faint daearyddol mwy ac mae ganddynt boblogaeth uwch. Mae hyn felly yn rhoddi mwy o gyfile i dai gael eu gwerthu yno. Unwaith yn rhagor, mae hyn yn dangos pwysigrwydd asesiad gwthrhyrchol wrth benderfynu os oes yna unrhyw anheddle sydd yn berthnasol i'w ychwanegu i'r polisi.
- 6.21 Er mwyn gallu cymharu'r aneddleoedd hyn gyda'r sefyllfa o ran y wardiau yn ehangach, ystyri'r pob dangosydd wrth asesu'r aneddleoedd unigol. Yn hyn o beth, gellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol gyda'r sgor o ran y wardiau a ddewiswyd i'w cynnwys yn y polisi. Mewn achosion perthnasol rhaid mireinio'r wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu er mwyn cyfleo'r wybodaeth orau posib. Yng ngoleuni hyn, nodi'r yn glir felly bwysigrwydd ystyried y ffigyrâu a'r canlyniadau terfynol yn wrthrhyrchol mewn perthynas â'r holl ystyriaethau perthnasol:

- Ar gyfer y canran o aelwydydd sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad – defnyddio ffigyrâu ar gyfer y ward yn ei gyfanrwydd;
 - Ar gyfer llefydd gwag mewn ysgolion ble nad oes ysgol yn y pentref – defnyddio'r ffigwr ar gyfer yr ysgol berthnasol sydd yn gwasanaethu'r pentref;
 - Ar gyfer y wybodaeth amgylcheddol - defnyddio 'r wybodaeth ar gyfer yr LSOA yn ei gyfanrwydd.
- 6.22 Mae hyn hefyd yn berthnasol o ran y wybodaeth sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y gymhareb fforddiadwyaeth (ar gyfer 2011 a 2012) a'r gymhareb chwartel isaf (2011 a 2012). Gan nad yw gwybodaeth o ran incwm aelwydydd ar gael ar gyfer ardaloedd allbwn, rhaid oedd gwneud amcangyfrifiad ar sail cymhariaeth o incwm y wardiau a phrisiau tai'r ardaloedd allbwn.
- 6.23 Er mwyn sicrhau cysondeb yn y gwaith o ganfod unrhyw aneddleoedd a fyddai'n berthnasol i'r polisi hwn, cyn belled â phosib defnyddiwyd yr un sail gwybodaeth i'r aneddleoedd a ddefnyddiwyd wrth asesu'r wardiau. Yn hyn o beth nodir gwybodaeth (ar gyfer pob dangosydd) o'r un cyfnod a ddefnyddiwyd yn flaenorol, ar wahân felly i'r wybodaeth ail gartrefi a bandiau treth y Cyngor (gan fod hyn yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan Unedau Treth y Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn).
- 6.24 Gellir crynhoi'r modd o asesu'r aneddleoedd ychwanegol hyn fel y ganlyn:

Tabl 4: Y modd o ddefnyddio'r dangosyddion ar gyfer asesu'r Pentrefi Arfordirol

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod
Cymhareb fforddiadwyaeth	CACI Paycheck a'r Gofrestrfa Tir	Canolrif prisiau tai: Ardaloedd Allbwn Canolrif incwm aelwydydd: Wardiau	2011 a 2012
Cymhareb chwartel isaf	CACI Paycheck a'r Gofrestrfa Tir	Chwartel isaf prisiau tai: Ardaloedd Allbwn Incwm aelwydydd Chwartel Isaf: Wardiau	2011 a 2012
Canran o bobl sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad	CACI Paycheck a'r Gofrestrfa Tir	Wardiau	2011 a 2012

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod
Ail gartrefi	Adrannau Treth y Cyngor, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	Gwynedd: Yn benodol i'r anheddle dan sylw Ynys Môn: Ardaloedd Cynghorau Cymuned	Ionawr 2016
Mudo	Gwybodaeth ar sail procsi - canran wedi eu geni y tu allan i Gymru.	Ardaloedd allbwn	Cyfrifiad 2011
Cysylltiad rhwng prisiau tai a safon yr amgylchedd	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 o ran yr 'amgylchedd ffisegol'.	'Lower Super Output Areas'	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011
Bandiau Treth y Cyngor	Adrannau Treth y Cyngor, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	Gwynedd: Yn benodol i'r anheddle dan sylw Ynys Môn: Ardaloedd Cynghorau Cymuned	Ionawr 2016
Nifer y gwerthiannau tai	Y Gofrestrfa Tir	Ardaloedd Allbwn	2012 a 2011

Dangosydd	Ffynhonnell	Lefel daearyddol	Cyfnod
Canran llefydd gwag mewn ysgolion	Adrannau Addysg Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn	Dalgylchoedd ysgolion cynradd – Defnyddir gwybodaeth o ran yr ysgol gynradd sydd yn gwasanaethu pentref ble nad oes ysgol yn y pentref penodol hwnnw.	Cyfnod o 10 mlynedd 2003-13

6.25 Mae'r wybodaeth berthnasol ar gyfer pob anheddle i'w weld yn Atodiad 4. I gynorthwyo gyda'r gwaith o wneud asesiad gwrthrychol ac effeithiol, fe nodir beth fyddai safle'r anheddle ar gyfer pob dangosydd o'i gymharu â'r holl wardiau.

6.26 Fel gyda'r asesiad o'r wardiau, fe sgoriwyd yr aneddleoedd ar sail cymhareb ei ganlyniad o ran pob dangosydd unigol yn erbyn y ward 'waethaf' h.y. y ward waethaf yn cael sgôr o 100. Caiff pob sgôr ar gyfer y dangosyddion unigol eu hadio at ei gilydd er mwyn sefydlu'r sgôr derfynol ar gyfer yr anheddle hwnnw. Mae'r modd y sefydlir y sgôr ar gyfer pob anheddle perthnasol i'w weld yn Atodiad 5. Fel gyda'r wardiau, fe sefydlwyd y sgoriau ar sail 'gyda pwysau' a 'heb bwysau' o ran y dangosyddion perthnasol (defnyddir yr un pwysau a'r hyn ar gyfer asesu'r wardiau). Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae'r elfen o asesu gwrthrychol yn hollbwysig ochr-yn-ochr â hyn.

6.27 Canlyniad y gwaith hwn oedd y dylid cynnwys y Pentrefi canlynol o fewn y Polisi Tai Marchnad Leol yn ychwanegol i'r rhai gafodd eu dewis ar sail yr asesiad o'r wardiau yn ardal y Cynllun:

- Borth-y-Gest
- Morfa Bychan

Yr aneddleoedd ble fyddai Polisi Tai Marchnad Leol yn berthnasol

6.28 Ar sail yr gwaith cychwynol o asesu holl wardiau ardal y Cynllun ac yna'r gwaith pellach o ystyried aneddleoedd penodol o fewn wardiau ehangach, mae'r aneddleoed sydd yn berthnasol i'w hystyried ar gyfer polisi tai marchnad lleol fel y ganlyn:

Canolfannau Gwasanaeth Lleol


- Abersoch
- Biwmares
- Rhosneigr

Pentrefi


- Sarn Bach
- Mynytho
- Llangian
- Aberdaron
- Rhoshirwaun
- Llanbedrog
- Moelfre
- Tudweiliog
- Trearddur
- Pont Rhyd y Bont
- Borth-y-Gest
- Morfa Bychan

6.29 Nodir na fydd y polisi hwn yn berthnasol ar gyfer y clystyrau gan mai tai fforddiadwy angen lleol yn unig a hybir yno.

Map 2: Lleoliad yr aneddleoedd perthnasol – Ynys Môn



Map 3: Lleoliad yr aneddleoedd perthnasol – Gwynedd



Effaith gweithredu'r polisi ar yr aneddleoedd a ddiffinnir

6.30 Wrth ystyried y Polisi Tai Marchnad Leol ar y cyd â strategaeth dai ehangach y Cynllun, bydd gweithredu'r polisi yn cael yr effaith ganlynol ar yr aneddleoedd a'u diffinnir yn Nhabl 3:

Canolfannau Gwasanaeth Lleol (Abersoch, Biwmares, Rhosneigr):

- Twf trwy ddatblygiadau ar hap a lle'n briodol dynodiadau newydd.
- Darparu ar gyfer cyfuniad o dai marchnad lleol a fforddiadwy.
- Dim cefnogaeth i dai marchnad agored.

Pentrefi Lleol, Arfordirol a Gwledig (Pob pentref a nodir):

- Dim dynodiadau tai
- Darparu tai marchnad lleol neu dai fforddiadwy ar raddfa fechan e.e. ar safleoedd mewnlenwi.

7. Gweithredu'r polisi

7.1 Bydd yn rhaid sicrhau fod yr unedau a fyddai'n destun y polisi hwn yn cwrdd ag anghenion lleol cydnabyddedig am byth. Fodd bynnag, nid yw'r polisi yn gorchymyn bod yn rhaid defnyddio dull penodol i wneud hynny. Mae hyn yn rhoddi mwy o ryddid i sicrhau bod amcanion y polisi yn cael eu cwrdd.

7.2 Yn hyn o beth, byddai modd defnyddio ymrwymiad cynllunio (h.y. cytundeb cyfreithiol 106), amod cynllunio neu unrhyw ddull perthnasol arall i ymglymu'r tai i fod yn rhai marchnad lleol, cyn belled â'i fod yn gallu cael ei weithredu yn effeithiol. Mae hyn yn lleihau unrhyw rwystrau o ran darparu'r unedau hyn. Bydd gwybodaeth bellach o ran yr agwedd hon yn cael ei ddarparu mewn Canllaw Cynllunio Atodol fydd yn cael ei baratoi o ran y maes hwn.

Beth a ystyrrir i fod yn 'lleol' ar gyfer y polisi hwn?

7.3 I bwrrpas y cymal 'Tai Marchnad Lleol', diffinnir 'lleol' fel y ganlyn:

- Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Cysylltiad gyda'r ward benodol ble lleolir yr anheddle neu unrhyw ward sydd yn ffinio yn union â hi.
- Pentrefi – Cysylltiad gyda'r ward benodol ble lleolir yr anheddle yn unig.

7.4 Fe ddiffinnir 'cysylltiad gyda'r ward' fel y ganlyn:

- Unigolyn sydd ar hyn o bryd yn byw oddi mewn i'r wardiau perthnasol ac sydd wedi byw yn barhaol yno am 5 mlynedd neu fwy; neu
- Pobl nad sydd ar hyn o bryd yn byw yn y wardiau perthnasol ond sydd â chysylltiad cryf a hir-sefydlog gyda'r gymuned leol gan gynnwys byw yn yr ardal am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy yn y gorffennol; neu
- Pobl sydd ag angen hanfodol i symud i fyw yn agos i berthnasau sydd ar hyn o bryd yn byw yn wardiau perthnasol ag sydd wedi byw yno am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol neu fwy ac sydd angen cefnogaeth oherwydd rhesymau oedran neu wendid; neu
- Pobl sydd angen cefnogaeth am resymau sy'n ymwneud ag oedran neu wendid ac sydd angen symud i fyw yn agos at berthnasau sydd yn byw ar hyn o bryd yn y wardiau perthnasol ac sydd wedi byw yno am y 5 mlynedd flaenorol neu fwy; neu
- Pobl sydd wirioneddol angen byw o fewn y ward benodol o ganlyniad i'w sefyllfa gwaith; neu
- Unrhyw faen prawf arall a gytunir arno yn ysgrifenedig gan Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd neu Benhaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn (i ba bynnag Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n berthnasol).

Uchafswm maint tai marchnad lleol

- 7.5 Rhaid rheoli uchafswm maint tai marchnad lleol er mwyn sicrhau na fydd eu gwerth yn uwch na'r hyn fyddai'n dderbyniol i ddiwallu anghenion lleol yn y lle cyntaf ac yn y dyfodol.
- 7.6 Ni fydd y cytundeb cyfreithiol yn cyfyngu gwerth yr eiddo fel yn achos tai fforddiadwy. Yn hytrach, bydd y polisi hwn yn ceisio rheoli gwerth unedau marchnad leol drwy gyfyngu eu maint. Trwy reoli uchafswm maint unedau marchnad leol, bydd gwerth yr unedau yn fwy cydnaws gydag amcan y polisi o gynnal y cymunedau diffiniedig.

Tabl 5: Uchafswm maint unedau preswyl mewn perthynas â'r Polisi Tai Marchnad Lleol (Ble nad oes cysylltiad gyda Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ble nad yw datblygiad yn destun Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru)

Math o uned breswyl	Tai Marchnad Lleol
Tŷ unllawr â 2 llofft	90m ²
Tŷ unllawr â 3 llofft	100m ²
Tŷ unllawr â 4 llofft	120m ²
Tŷ deulawr neu ragor â 2 llofft	100m ²
Tŷ deulawr neu ragor â 3 llofft	110m ²
Tŷ deulawr neu ragor â 4 llofft	130m ²
Tŷ deulawr neu ragor â 5 llofft	145m ²
Garej	20 m ² ychwanegol

ATODIAD 1

8. POLISIAU AWDURDODAU CYNLLUNIO ERAILL

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL NORTH YORK MOORS

Strategaeth Graidd a Pholisiau Datblygu - Fframwaith Datblygu Lleol (Mabwysiadwyd Tachwedd 2008)

Core Policy J – Housing

“A mix of housing types and tenures will be sought to maintain the vitality of local communities, consolidate support for services and facilities and support the delivery of more affordable housing. This will be delivered through:

1 Locating all open market housing, including new build and converted units, in the main built up area of the Local Service Centre of Helmsley and the Service Villages. On larger sites more than 0.1 hectares or where 2 or more residential units are proposed, at least 50% of the resulting units must be affordable including conversion schemes. The 50% target may be varied in the light of the viability of the development, and is an interim figure for a period of 3 years, pending the completion of a general affordable housing viability assessment. Sites of less than 0.1 hectare must meet the definition of a small infill gap.

2. Supporting the development of local needs housing located on infill sites or as a conversion of an existing building within the main built up area of the Local Service Villages and Other Villages”

- 8.1 Nodir yn y polisi hwn fod y sawl all fyw mewn uned ‘tai angen lleol’¹ wedi ei gyfyngu i:

¹ Pentrefi Gwasanaeth Lleol (Local Service Villages)

Mae'r aneddleoedd hyn gyda chymeriad annibynnol ac maent yn gyfan gwbl o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae ganddynt nifer gyfyngedig o gyfleusterau sydd yn gwasanaethu'r ardal sydd yn union gyfagos iddynt ond nid oes ganddynt swyddogaeth fwy eang y 'Pentrefi Gwasanaethol' (sef yr aneddleoedd nesaf i fyny yn yr hierarchaeth aneddleoedd). Fodd bynnag, maent yn cwrdd â swyddogaeth wasanaethol pwysig i'r gymuned leol.

Pentrefi eraill (Other Villages)

Mae'r aneddleoedd sydd wedi eu cynnwys o fewn y diffiniad hwn gyda chyfleusterau mwy cyfyngedig neu ddim cyfleusterau o gwbl, gyda'r rhai sydd ar gael wedi ei rannu gyda grwpiau o aneddleoedd.

- Pobl sydd ar hyn o bryd yn byw oddi mewn i'r Parc Cenedlaethol ac sydd wedi byw yn barhaol yno am 5 mlynedd neu fwy ac sydd yn byw mewn llefy nad sydd bellach yn cwrdd â'u hanghenion; neu
 - Pobl nad sydd ar hyn o bryd yn byw yn y Parc Cenedlaethol ond sydd â chysylltiad cryf a hir-sefydlog gyda'r gymuned leol gan gynnwys byw yn yr ardal am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy yn y gorffennol; neu
 - Pobl sydd ag angen hanfodol i symud i fyw yn agos i berthnasau sydd ar hyn o bryd yn byw yn y Parc Cenedlaethol ag sydd wedi byw yno am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol neu fwy ac sydd angen cefnogaeth oherwydd rhesymau oedran neu wendid; neu
 - Pobl sydd angen cefnogaeth am resymau sy'n ymwneud ag oedran neu wendid ac sydd angen symud i fyw yn agos at berthnasau sydd yn byw ar hyn o bryd yn y Parc Cenedlaethol ac sydd wedi byw yno am y 5 mlynedd flaenorol neu fwy; neu
 - Pobl sydd angen byw yn y Parc Cenedlaethol o ganlyniad i'w hunig gyflogaeth o fewn y plwyf hwnnw neu blwyfi cyfagos o fewn yn y Parc Cenedlaethol.
- 8.2 Fe nodai'r polisi fod yn rhaid i'r holl ymgeiswyr arddangos i fodddad Awdurdod y Parc Cenedlaethol fod anghenion y deiliaid arfaethedig yn ddilys, a'i fod yn cynnig yr ateb mwyaf ymarferol a cynaliadwy i gwrdd â'r angen a adnabuwyd a pham na all y stoc dai bresennol gwrdd â'u hanghenion hwy.
- Eglurhad i'r polisi
- 8.3 Nodai'r eglurhad i'r polisi hwn fod amodau Deiliadaeth Lleol wedi eu cymhwysio i adeiladau o'r newydd yn y Parc Cenedlaethol ers 1992. Ymestynnwyd hyn yng Nghynllun Lleol 2003 er mwyn cynnwys y mwyaf o dai a adeiladwyd o'r newydd. Nodir fod hyn wedi bod o Gymorth i'r Awdurdod er mwyn sicrhau fod y cyfleoedd prin am dai newydd yn cwrdd ag angen lleol yn hytrach na galw allanol. Nodai nad yw'r polisi hwn yn arwain at eiddo 'fforddiadwy' gan fod gwerth yr eiddo sydd yn destun amod o'r fath yn gostwng ond 15-20% o werth y farchnad. Mae prisiau cyfartalog uchel yn y Parc Cenedlaethol yn golygu fod hyn yn parhau yn anfforddiadwy i lawer o bobl ond fod y polisi yn rhoddi cyfleoedd i gwrdd ag anghenion pobl sydd yn y farchnad dai yn barod.
- 8.4 Nodir fod y Polisi yn darparu amryw o ffyrdd posib o ddangos angen am dŷ mewn lleoliad penodol. Fodd bynnag, mae yn angenrheidiol dangos nad oes yna unrhyw eiddo addas ar gael o fewn y stoc dai bresennol i gwrdd â'r angen penodol ac mai'r cynnig yw'r ffordd fwyaf addas o gwrdd â'r angen hwnnw.

Dogfen Gynllunio Atodol Tai, Ebrill 2010 /Housing Supplementary Planning Document, April 2010]

- 8.5 Mae mwyafrif y tai sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol yn dai marchnad agored ac ar gael i bwy bynnag sydd yn dewis ac sydd yn gallu fforddio byw yna. Yn sgil harddwch naturiol yr ardal a'i agosrwydd i ardaloedd trefol, mae galw allanol sylweddol ar gyfer eiddo o gymudwyr ac eraill sydd eisiau prynu tai yn yr ardal.
- 8.6 Ers 1992, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ceisio sicrhau fod y cyfleoedd prin ar gyfer tai newydd yn cael eu defnyddio i gwrdd ag anghenion pobl leol drwy gymhwysedd amodau preswyliaeth lleol i rai tai penodol. Dyma felly yw sail cynnwys Polisi Craidd J, gyda thai marchnad agored yn cael eu cefnogi yn yr aneddleoedd mwy ond bod tai mewn lleoliadau eraill yn destun amod preswyliaeth lleol. Mae tystiolaeth anecdotaid yn awgrymu fod gwerth eiddo gydag amod o'r fath ar y cyfan wedi ei leihau oddeutu 15% i 20%. Tra nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o 'dai fforddiadwy', maent wedi eu lleoli rhwng tai marchnad agored a thai fforddiadwy ac felly maent yn cyfrannu tuag at well balans o ran y gymysgedd o'r math o dai sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol.
- 8.7 Amgylchiadau ble fydd amod preswyliaeth lleol yn berthnasol:
- Ble mae tŷ newydd yn cael ei ddatblygu ar safle mewnlenwi o fewn ardal ddatblygedig un o Bentrefi Gwasanaethol Lleol neu Bentrefi Eraill y Parc;
 - Ble mae un neu ragor o dai newydd yn cael eu creu drwy drosi neu isrannu adeilad presennol o fewn ardal ddatblygedig un o Bentrefi Gwasanaethol Lleol neu Bentrefi Eraill y Parc (os ydi'r adeilad wedi ei restru ai pheidio). Ble fod adeilad wedi ei newid yn sylweddol fel nad yw'r tŷ gwreiddiol ddim yn cael ei gadw, bydd amod preswyliaeth lleol yn cael ei gysylltu i bob uned preswyl o'r newydd yn yr adeilad sydd wedi ei drosi;
 - Ble mae amod preswyliaeth amaethyddol neu goedwigaeth yn cael ei dynnu;
 - Mewn rhai amgylchiadau eraill, er enghraifft ble mae tŷ yn cael ei ddymchwel ac yna ei ail-adeiladu neu ble mae adeilad traddodiadol nad sydd wedi ei restru yng nghefn gwlod agored yn cael ei drosi ar gyfer ei osod ar gyfer anghenion lleol neu ar gyfer ei ddefnyddio ar gyfer uned byw-gweithio;
 - Mewn achosion eithriadol iawn, ble fo cais wedi ei ganiatâu yn groes i bolisiâu'r Strategaeth Graidd a Pholisiâu Datblygu'r Ddogfen Cynllun Datblygu neu ar sail amgylchiadau arbennig.
- 8.8 Mae'r cyfyngiad preswyliaeth lleol yn cael ei gymhwysedd fel amod ar ganiatâd cynllunio ac mae'n cysylltu gyda'r eiddo. Golygai hyn fod y preswylwyr cyntaf a'r rhai olynol yn gorfol cwrdd â'r mein praw preswyliaeth lleol. Mae'n rhaid i unrhyw berson sydd eisiau prynu eiddo hunan-berchnogaeth sydd ag amod preswyliaeth

Ileol arno gael cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn nodi eu bod yn cydymffurfio gyda'r amod.

- 8.9 Bydd yr Awdurdod yn monitro'r amodau hyn yn gyson ac yn gweithredu pan fo'r angen. Os yw person wedi bod yn byw mewn eiddo yn groes i'r hyn a nodir yn yr amod, ni fydd yr amser sydd wedi ei dreulio yn yr eiddo yn cyfrif fel rhan o'u cyfnod o breswylio yn y Parc Cenedlaethol.

Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio - 'Adroddiad ar yr archwiliad i strategaeth graidd a pholisiau datblygu'r awdurdod' (Hydref 2008) / 'Report on the examination into the authority's core strategy and development policies - Development Plan Document (October 2008)

- 8.10 Nododd yr Arolygydd Cynllunio'r canlynol:

Tai marchnad agored: "Fe fydd tai marchnad agored yng nghanolfan lleol Helmsley a'r 7 pentref gwasanaethol yn cael eu caniatáu. Y rhain yw'r aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, a bydd caniatáu peth tai marchnad agored, ar y cyd gyda thai angen lleol a thai fforddiadwy, o gymorth ar gyfer cynnal hyfywdra'r cymunedau.

Tai angen lleol: "Fodd bynnag, byddai caniatáu tai marchnad agored ar raddfa fwy yn atynnu pobl o fannau eraill, gan gynnwys pobl sydd wedi ymddeol a pherchnogion ail gartrefi. Mae tai fforddiadwy a rhai angen lleol yn darparu ar gyfer cyfuniad o grwpiau oedran. Byddai cynyddu'r nifer o dai mewn aneddiadau llai yn debygol o ddifrodi cymeriad yr aneddleoedd hyn a'r dirwedd, yn groes i bwrrpas y Parc Cenedlaethol. Byddai hefyd yn arwain at batrwm aneddleoel fwy gwasgaredig a lleihau cynaliadwyedd Dogfen y Cynllun Datblygu".

"Mae'n ymddangos i mi fod y ddogfen yn taro'r balans cywir rhwng caniatáu peth tai marchnad agored a darparu ar gyfer y rhai hynny nad sydd yn gallu fforddio'r fath dai".

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL YORKSHIRE DALES

Cynllun Datblygu Tai 2012-2025 / Housing Development Plan 2012-2025

- 8.11 Mae'r Cynllun Datblygu Tai yn cynnwys 11 o bolisiau sydd wedi eu diweddar ac wedi cymryd lle'r polisiau tai yng Nghynllun Lleol Yorkshire Dales (2012).

Policy HDP2 - Land for new build housing

The Yorkshire Dales National Park Authority will permit the development of land for house building provided all the following criteria are met:

- i) The site is either allocated on the Proposals Map or lies within a housing development boundary of a Local Service Centre or Service Village and is capable of development without significant harm to natural beauty, wildlife, cultural heritage or neighbouring amenity,
- ii) On sites where more than one dwelling is proposed, there is evidence at the time of application for a continuing need for a specific type and quantity of affordable and local market housing,
- iii) On sites larger than one dwelling, a minimum of 50% is developed for affordable housing in perpetuity,
- iv) Occupancy of all housing is restricted permanently to the categories of local housing need set out in Appendix 1,
- v) The affordable housing element is available for occupation either before or at the same time as the local market housing,
- vi) Design, size and density accords with Policy HDP7 (Density and size), HDP8 (Energy efficiency and generation in housing developments) and saved Local Plan Policies NE11 (New or improved habitats) and GP2 (General design policy).
- vii) Development of the allocated sites follows the guidelines set out in each development brief.

The mechanism for securing affordability and restriction to local occupancy will be a legal agreement between the applicant and the Authority. If it is claimed that 50% affordability cannot be achieved then the economic viability of the proposal will be referred to the District Valuer, or other suitably qualified person, for testing.

Tai marchnad lleol

- 8.12 Mae tai o'r fath yn cael ei ddarparu gan y farchnad mewn ymateb i dystiolaeth lleol o angen. Mae'r sawl sydd yn cael byw yn yr unedau hyn wedi eu cyfyngu i gategorïau aelwydydd cymwysedig penodol sydd ag angen economaidd neu gymdeithasol i fyw yn y Parc Cenedlaethol ac nad sydd yn cael ei gyflenwi yn bresennol gan y farchnad dai gonfensiynol. Nid yw'r unedau hyn o reidrwydd yn fforddiadwy o safbwyt y diffiniad cenedlaethol o fforddiadwyaeth ond maent fodd bynnag yn rhatach na thai cymharol nad sydd â chyfngiad arnynt. Gan hynny mae ganddynt swyddogaeth yn yr is-farchnad.

- 8.13 Fe wnaeth yr Awdurdod ymgymryd ag ymchwil ar gyfer hyfywdra economaidd ryddhau tir ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy. Fe wnaeth yr astudiaeth arddangos y byddai cyfran o 50% o dai fforddiadwy ar bob safle yn hyfw ar gyfer y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn y Parc Cenedlaethol cyn belled a bod y 50% arall yn bosib fel tai marchnad lleol lle bo preswyliaeth, ond nid pris, yn cael eu cyfyngu. Mae'r rhaniad hwn yn annog tirfeddianwyr i gynnig safleoedd yn y Cynllun gan fod yr Awdurdod wedi cydnabod, ar sail hyfywdra economaidd, na fyddai safleoedd a fyddai i'w dynodi yn eu cyfarwydd ar gyfer tai fforddiadwy yn cael eu cyflwyno mewn niferoedd digonol.
- 8.14 Ar sail prisiau tai uchel parhaus yn y Parc Cenedlaethol, dylai tai marchnad lleol barhau i fod yn ddeniadol yn ariannol i dirfeddianwyr a dylai weithredu fel y cymhelliant i ryddhau safleoedd cymysg.
- 8.15 Prif bwrpas y polisi hwn ydyw i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ar safleoedd addas o fewn Canolfannau Gwasanaethol Lleol a Phentrefi Gwasanaethol ble mae tystiolaeth o angen lleol. Yr amcan eilaidd ydyw i gynyddu'r cyflenwad o dai marchnad lleol yn barhaol. Byddai cyfyngu'r math o aelwydydd a fyddai'n gallu byw mewn tai marchnad lleol yn rhwystro'r unedau hynny rhag cael eu colli i alw allanol e.e. ail gartrefi. Mae hefyd yn lleihau pris yr unedau ac felly yn eu gwneud yn fwy hygyrch i aelwydydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Nid ydyw tai marchnad lleol yn dai fforddiadwy mewn perthynas â'r diffiniad mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Mae 34 safle dynodedig o'r fath a all gefnogi 231 o dai wedi eu hadnabod yn y Cynllun.
- 8.16 Mae'n angenrheidiol fod yr ymgeisydd yn cyflwyno tystiolaeth bellach ei bod yn debygol bod fod yna angen ar gyfer y gyfran marchnad leol o'r datblygiad arfaethedig. Gall ymgeiswyr lenwi ffurflen sydd yn nodi manylion aelwydydd sydd yn dderbynio yn unol â mein prawf anghenion tai lleol yr Awdurdod. Fel arall, gall y dystiolaeth ddeillio o arolwg anghenion tai'r ardal os ydyw yn darparu gwybodaeth ar yr angen ar gyfer tai marchnad lleol.

Yr aelwydydd a ystyrir i fod mewn angen sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer tai newydd yn y Parc Cenedlaethol h.y. angen lleol, yn cael eu diffinio fel y ganlyn:

- 8.17 (Categorïau i), iii), iv) and v) dim ond yn berthnasol i bobl sydd wedi byw yn barhaol yn y Parc Cenedlaethol am y tair blynedd flaenorol. Mae categori vi) yn berthnasol i breswylwyr sydd wedi byw yn y Parc Cenedlaethol am o leiaf 10 mlynedd.
- i) Preswylwyr presennol o'r Parc Cenedlaethol sydd yn sefydlu aelwyd ar wahân neu yn prynu tŷ am y tro cyntaf.

- ii) Pen aelwyd sydd neu sydd â phartner mewn neu yn cymryd gwaith parhaol llawn-amser mewn busnes sydd wedi ei sefydlu'n barod o fewn y Parc Cenedlaethol (neu mewn rhan arall o blwyf sydd wedi ei rannu gan ffin y Parc Cenedlaethol). Ble mae person yn cael ei gyflogi mewn busnes sydd wedi ei sefydlu sydd yn gweithredu mewn amryw o leoliadau, bod eu gweithgareddau cyflogaeth yn cymryd lle gan fwyaf o fewn y Parc Cenedlaethol.
- iii) Deiliaid sydd yn byw yn barhaol ar hyn o bryd mewn tŷ sydd unai wedi ei rannu ond nid yn hunangynhwysol, wedi ei orlenwi, neu sydd fel arall yn anfoddhaol gan safonau iechyd yr amgylchedd ac sydd o fewn y Parc Cenedlaethol (neu mewn rhan arall o blwyf sydd wedi ei rannu gan ffin y Parc Cenedlaethol).
- iv) Pobl hŷn neu anabl sydd angen lloches neu fel arall lety mwy addas sydd eisoes yn byw yn barhaol o fewn y Parc Cenedlaethol (neu mewn rhan arall o blwyf sydd wedi ei rannu gan ffin y Parc Cenedlaethol).
- v) Pobl sydd yn gorfod gadael llety clwm o fewn y Parc Cenedlaethol (neu mewn rhan arall o blwyf sydd wedi ei rannu gan ffin y Parc Cenedlaethol).
- vi) Cyn preswylwyr y Parc Cenedlaethol (neu ran arall o blwyf sydd wedi ei rannu gan ffin y Parc Cenedlaethol) sydd a'u hachos ar gyfer angen i ddychwelyd i'r Parc Cenedlaethol wedi ei dderbyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARDAL Y LLYNNOEDD

Strategaeth Graidd y Fframwaith Gynllunio Lleol (Mabwysiadwyd Hydref 2010)

- 8.18 Nodai'r Strategaeth Graidd fod lleihad yn y stoc dai cymdeithasol a chynnydd yn nifer y perchnogion ail dai, yn golygu diffyg amlwg o dai fforddiadwy mewn rhannau penodol o Barc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd. Nodir fod lefel uchel o ail gartrefi yn golygu fod y boblogaeth breswyl barhaol wedi lleihau yn arwyddocaol mewn rhai aneddaleoedd. Sgil effaith hyn yw bod busnesau a gwasanaethau lleol, megis siopau, ysgolion a swyddfeydd post, yn ei chael yn anodd i oroesi yn sgil diffyg defnyddwyr cyson. Gall hyn ynysu cymunedau gwledig ymhellach, gyda llai o bobl a theuluoedd ifanc yn byw yno a'r risg o droi'r cymunedau hyn yn fannau ar gyfer ymwelwyr cefnog a phobl sydd wedi ymddeol.
- 8.19 Mae yna bwysau sylweddol ar y stoc dai bresennol mewn amryw o ardaloedd o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn rhannol yn sgil pobl yn symud o ardaloedd trefol er mwyn gwella eu hansawdd bywyd a hefyd ar sail pobl yn prynu ail gartrefi neu dai ar gyfer eu gosod i ddefnydd gwyliau. Gan fod cyflogau mewn ardaloedd gwledig hefyd yn duedol o fod yn is na chyflogau mewn ardaloedd trefol cyfagos, mae'n anodd i bobl sydd yn dibynnu ar gyflogau lleol i allu cystadlu yn y farchnad dai agored.

- 8.20 Mae hyn oll wedi arwain at gynnydd arwyddocaoi yn y gyfrannedd rhwng incwm a phrisiau tai yn yr ardal e.e. yn Ardal Marchnad Tai Central Lakes mae'r gyfrannedd hon yn 13.6:1. O ganlyniad, ni all llawer o bobl ifanc ac aelwydydd sydd wedi eu ffurio o'r newydd fforddio i brynu tai yn y farchnad dai leol, gan olygu eu bod yn allfudo o'r Parc Cenedlaethol. Mewn rhai mannau mae hyn yn effeithio yn negyddol ar fywiogrwydd y cymunedau lleol.
- 8.21 Nododd Arolygydd Cynllunio annibynnol ym mis Medi 2010, yn dilyn Archwiliad Cyhoeddus, fod y Strategaeth Graidd yn 'gadarn'. Nodai hyn fod cyfiawnhad drosto, ei fod yn effeithiol a'i fod yn gyson gyda pholisi cenedlaethol. Mabwysiadwyd y Strategaeth Graidd ym mis Hydref 2010.

Policy CS18: Housing provision

"We will permit new dwellings where they contribute towards meeting an identified local need or local affordable need with priority given to the delivery of affordable housing, and where they:

- help to redress the imbalances in the local housing market; and
- are secured in perpetuity for the purpose it was originally intended through the use of appropriate planning controls.

.....

Development proposals on windfall sites for four or more houses must reflect the local affordable need. In these cases a maximum of 3 houses for local need will be allowed".

(Rhannau penodol o'r polisi wedi ei ddyfynnu gyda'r tanlinellu wedi ei ychwanegu).

- 8.22 Mae'r nodiadau eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r polisi yn nodi y bydd yn rhaid i'r holl unedau preswyl newydd yn y Parc Cenedlaethol gwrdd ag anghenion lleol neu leol fforddiadwy cydnabyddedig. Mae hyn yn cynnwys tai sydd i'w hadeiladu o'r newydd, tai i'w hisrannu, trosiadau a newid defnydd adeiladau. Ni chaniateir unrhyw dai marchnad agored.
- 8.23 Nodir bod yn rhaid i ddatblygiad newydd wasanaethu anghenion y gymuned leol ac nid i'w golli yn y dyfodol i'r farchnad agored neu ar gyfer defnydd gwyliau.

Dogfen Gynllunio Atodol "Housing Provision" (mabwysiadwyd Mawrth 2014)

Diffiniad o 'Dai Angen Lleol':

8.24 Mae'n bwysig fod tai angen lleol yn cwrdd yn llwyddiannus gyda angen cydnabyddedig. Mae lefelau angen yn newid ym mhob amser dros amser. Golygai hyn y dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer tai angen lleol ond gael eu cyflwyno unwaith mae'r angen lleol wedi ei sefydlu a bod y cynigion yn adlewyrchu hyn yn nhermau niferoedd, maint a math.

Diffiniad o 'Gysylltiad Lleol'

8.25 Bydd pob tŷ angen lleol yn cael ei gyfyngu i'r rhai hynny sydd yn gallu profi eu bod mewn angen i fyw yn yr ardal leol. Bydd yn rhaid i'r preswylydd gwrdd ag un o'r meini prawf canlynol:

- Mae'r person wedi bod yn gweithio yn barhaol yn yr ardal leol a ddiffinnir am o leiaf y 9 mis blaenorol ac am isafswm o 16 awr yr wythnos yn union cyn meddiannaeth; neu
- Mae'r person angen byw yn yr ardal leol a ddiffinnir gan eu bod angen gofal sylweddol gan berthynas sydd yn byw yn yr ardal a ddiffinnir, neu oherwydd eu bod angen darparu gofal sylweddol i berthynas sydd yn byw yn yr ardal a ddiffinnir. Mae gofal sylweddol yn golygu hynny a adnabyddir gan ddoctor meddygol neu asiantaeth gefnogol statudol berthnasol; neu
- Mae'r person wedi byw yn barhaol yn yr ardal leol a ddiffinir am dair blynedd yn union cyn:
 - Angen cartref arall sydd yn deillio o newid i'w haelwyd (gan gynnwys amgylchiadau megis priodi/ysgaru, cael plant neu fod mewn angen am gartref llai)
 - Dilyn hyfforddiant neu addysg ôl-eilaidd yn llawn amser ac yn dilyn i'r ardal leol a'i ddiffinir o fewn 12 mis o'i gwblhau, neu
 - Mynd i ysbty, gofal preswyl neu ddedfrydu i garchar, ac yn dychwelyd i'r ardal leol a'i ddiffinir o fewn 12 mis o cael eu gadael adref/rhyddhau, neu
- Fod y person yn –
 - (a) Gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd o fewn 5 mlynedd o'r dyddiad o'u cais ar gyfer cartref;
 - (b) Ddim gyda'r hawl, unai yn ddiweddar neu yn y dyfodol agos, i fyw mewn llety sydd wedi ei ddarparu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dilyn marwolaeth priod neu bartner sifil y person hwnnw ble:

- (i) Mae'r priod neu bartner sifil wedi gwasanaethu yn y lluoedd rheolaidd; a
- (iii) Bod eu marwolaeth wedi ei briodoli (yn ei gyfanwydd neu yn rhannol) i'r gwasanaeth hwnnw; neu
- (c) Yn gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y lluoedd wrth gefn ac sydd yn dioddef o anaf difrifol, salwch neu anabledd sydd wedi ei briodoli (yn ei gyfanwydd neu yn rhannol) i'r gwasanaeth hwnnw.

CYNGOR DOSBARTH RYEDALE

Cynllun Ryedale - Strategaeth Cynllun Lleol / Ryedale Plan - Local Plan Strategy

8.26 Mae Cyngor Dosbarth Ryedale wedi mabwysiadu eu Strategaeth Cynllun Lleol (5ed Medi, 2013). Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r materion strategol sydd yn wynebu'r ardal a'r sialens o fynd i'r afael â hwy. Yn benodol mae'n nodi:

- Lefel disgwyliedig o ddatblygiad a fydd yn cymryd lle yn yr ardal hyd at 2027;
- Y math penodol o ddatblygiad newydd sydd eu hangen er mwyn cwrdd gydag anghenion Ryedale;
- Y math o sialensiau a fydd yn digwydd mewn gwahanol leoliadau;
- Y math o brosiectau a buddsoddiad sydd ei angen ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus a chefnogi twf a chymunedau lleol; a
- Yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

8.27 Mae'r Cynllun hon yn nodi Amod Preswyliaeth Angen Lleol ar dai newydd sydd i'w hadeiladu yn y pentrefi di-wasanaethol llai ac yng nghefn gwlaid agored. Bydd hyn o gymorth ar gyfer sicrhau bod y ffynhonnell eithaf cyfyngedig o dai newydd yn yr ardaloedd hyn yn adlewyrchu yn well anghenion preswyl pobl leol ac nid galw allanol. Fe ddisgwyli'r y bydd hyn yn arwain at ryddhau'r safleoedd tai dynodedig mwy a ddarperir yn nhrefi a phentrefi mwy cynaliadwy Ryedale. Ystyri'r fod hyn yn fecanwaith polisi sydd yn declyn pwysig ar gyfer cynorthwyo i reoli'r cyflenwad tai ar draws ardal wledig mor eang.

Policy SP2 - Delivery and Distribution of new housing

...

Other Villages

Infill development (small open sites in an otherwise continually built up frontage) restricted to

- Local Needs Occupancy
- Replacement dwellings
- Sub-division of existing dwellings
- Conversion and Redevelopment of Previously Developed Land and buildings within Development Limits, restricted to Local Needs Occupancy
- 100% Rural Exception Sites outside and on the edge of Development Limits in line with Policy SP3
- Change of use of tourist accommodation (not including caravans, cabins or chalets) where appropriate and restricted to local needs occupancy

...

8.28 Mae rheoli preswyliaeth gwahanol fath o lety yn ffurfio modd bwysig o reoli'r pwysau ar y farchnad dai agored mewn marchnad sydd ble gwelir galw uchel megis Ryedale. Nodir y defnyddir Amod Preswyliaeth Angen Lleol ar dai newydd yn y mwyafrif o bentrefi yn Ryedale. Fe ddefnyddir yr amod er mwyn sicrhau fod y ffynhonnell gyfyngedig o dai yn y lleoliadau hyn ar gael i gwrdd gydag anghenion pobl leol ac nid galw allanol a bod tai newydd yn y lleoliadau hyn yn dod yn eu blaen ar raddfa sydd yn adlewyrchu anghenion tai lleol. Fe ragwelir y bydd hyn yn cefnogi'r rhyddhad o safleoedd tai a'u cynllunnir mewn aneddleuoedd/lleoliadau mwy cynaliadwy.

8.29 Mae Polisi SP21 ('Occupancy Restrictions') yn nodi fod y rhai sydd yn gymwys mewn perthynas â chymal Preswyliaeth Angen Lleol fel y ganlyn:

- Wedi byw yn barhaol yn y plwyf, neu blwyf cysylltiol (gan gynnwys y rhai hynny tu allan i'r Ardal), am o leiaf tair blynedd ac sydd yn awr mewn angen ar gyfer llety newydd nag sydd yn gallu cael ei gwrdd o'r stoc dai presennol; neu
- Ddim yn byw yn y plwyf ond sydd â chysylltiad hirsefydlog i'r gymuned leol, gan gynnwys cyfnod blaenorol o breswyliaeth o dros dair blynedd ond sydd wedi symud i ffwrdd yn ystod y tair blynedd flaenorol, neu rhai sydd wedi gwasanaethu yn filwrol ac sydd yn dychwelyd i'r plwyf yn dilyn gadael gwasanaeth milwrol; neu

- Yn cychwyn cyflogaeth llawn amser parhaol mewn busnes sydd wedi ei sefydlu eisoes sydd wedi ei leoli yn y plwyf neu blwyf cysylltiol am o leiaf y tair blynedd flaenorol; neu
- Gydag angen hanfodol sydd yn deillio o oedran neu wendid i symud er mwyn bod yn agos at berthnasau sydd wedi byw yn barhaol o fewn yr ardal am o leiaf y tair blynedd flaenorol.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Fersiwn Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Medi 2010)

8.30 Fe wnaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynnwys polisi o fewn Fersiwn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol (Medi 2010) a oedd yn cyfeirio at Dai Angen Lleol o fewn Aneddleoedd Twf Cyfyngedig:

Policy 15 – Local Needs Housing within Limited Growth Settlements

Within level 4 Limited Growth Settlements general needs housing will not be permitted.

Development which results in the creation of new dwellings, including the subdivision of existing houses, changes of use, conversion of rural buildings, or new build, where there is a net gain in housing will only be permitted where they provide affordable housing in accordance with the definition given.

Only in circumstances where it is proven that no need for affordable housing exists and/or no RSL or similar body is able to facilitate the scheme will the NPA consider development to serve local needs housing. Such Development will be permitted where:

- a. the dwelling serves an evidenced need for new housing within the settlement in accordance with the evidence base
- b. is provided for initial sale at a value considered by the NPA to be reasonable in keeping with the identified need
- c. is provided for occupancy by individuals who have a genuine and proven housing need
- d. is provided for occupancy by individuals who have a proven local connection

Subsequent release of such dwellings onto the open market will be prohibited. If the local needs house is no longer needed by the initial occupier, or subsequent occupiers, then resale will be capped to affordable levels, and the dwelling will become, and remain an affordable house in perpetuity. All development enabled through this policy will be tied by occupancy conditions and /or S106 agreement to ensure that the dwelling remains affordable in perpetuity.

- 8.31 Bwriad y polisi hwn oedd sicrhau fod cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn parhau'n fywiol a chynaliadwy. Byddai'n cael ei fonitro drwy'r broses Asesiad Marchnad Dai Leol er mwyn sicrhau eu bod yn cyfeirio at angen preswyl cydnabyddedig o fewn y cymunedau heb gael effaith negyddol ar y farchnad ehangach
- 8.32 Y cefndir i hyn oedd fod llawer o breswylwyr y Parc Cenedlaethol yn pryderu am erydiad o'u ffordd o fyw sydd wedi ei gysylltu gyda fforddiadwyaeth byw'n wledig. Mae safon amgylcheddol y Parc Cenedlaethol yn cynyddu gwerth tir ac eiddo. Wrth i brisiau tai godi a gweithgaredd masnachol leihau, mae trigolion, yn enwedig felly pobl ifanc, yn cael eu gorfodi i symud allan o'r ardal ar sail anghenraíd economaidd. Mae diboblogaeth gwledig yn cael effaith arwyddocaol ar gryfder a chynaliadwyedd cymunedau, ar sail colli cyfleusterau, gwasanaethau a'r safon o fyw sydd yn deillio o gymuned gref a bywiog.
- 8.33 Mae diffyg tir datblygu addas yn y Parc hefo'r potensial i chwyddo gwerth y farchnad ymhellach na'r hyn sydd yn cyd-fynd gyda'r incwm cyfartalog ar gyfer yr ardal. Fe wnaeth hyn ynghyd â'r pwysau ar gyfer ail gartrefi, llety gwyliau a'r cynnydd yn y mewnfudiad o bobl sydd yn ymddeol, olygu bod yr Awdurdod Cynllunio wedi ceisio bod yn rhagweithiol o ran sicrhau nad yw ymdrechion i warchod y dirwedd a'r amgylchedd leol yn gor-gynyddu gwerth tir i'r pwynt ble mae cynaliadwyaeth gymunedol yn cael ei effeithio yn negyddol.
- 8.34 O fewn yr aneddiadau sydd yn berthnasol i'r polisi hwn, yn unol ag amcan allweddol o'r CDLI i ddarparu'r defnydd mwyaf cynaliadwy o dir a'r ddyletswydd i sicrhau lles socio-economaidd eu preswylwyr, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ceisio sicrhau fod datblygiadau yn y dyfodol yn cwrdd ag anghenion eu cymunedau yn hytrach na dymuniad datblygwyr i wasanaethu'r angen tai marchnad agored sydd yn fwya proffidiol.

Adroddiad yr Arolygydd – Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol
Bannau Brycheiniog (Hydref 2013)

- 8.35 Fe wnaeth yr Arolygydd ddileu Polisi 15 uchod yn dilyn yr Archwiliad Cyhoeddus ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Golygai hyn mai tai fforddiadwy y dylid gofyn amdanynt yn yr aneddiadau twf cyfyngedig (lefel 4), yn hytrach na thai angen lleol.


- 8.36 Nodwyd mai ychydig o dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r angen ar gyfer y math hwn o dŷ a'i bod yn annhebygol y gellir profi nad oes yna angen ar gyfer tai fforddiadwy, o ystyried yr angen a nodwyd o ran hyn.
- 8.37 Fe nododd yr Arolygydd fod Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at anghenion tai lleol ar gyfer tai marchnad. Fodd bynnag, mae'n gwneud yn glir nad yw'r math hwn o dai fel arfer gydag unrhyw amod preswyliaeth. Yn ogystal, byddai angen i'r fath wyriad o bolisi cenedlaethol gael ei gyflawnhau gyda thystiolaeth gref. Nodir y byddai Polisi 15 o'r Cynllun a gyflwynwyd yn ei gwneud yn angenrheidiol i ddatblygiad gael ei glymu gydag amodau preswyliaeth neu rwymedigaethau amod 106. Nid yw felly yn cydymffurfio gyda Pholisi Cynllunio Cymru. Ymhellach i hyn, o gofio'r gwrthdaro gyda Pholisi Cynllunio Cymru, mae'n annhebygol y byddai tai angen lleol yn gallu cael ei ystyried i wasanaethu diben cynllunio ddefnyddiol.
- 8.38 Ar sail hyn, nodwyd y byddai'r fath amod neu rwymedigaeth yn annhebygol o gwrdd ag anghenion Cylchlythyr 35/95 Llywodraeth Cymru 'The Use of Conditions in Planning Permissions' a Chylchlythyr 13/97 Llywodraeth Cymru 'Planning Obligations' a'r profion statudol a nodir yn Rheoliad 122 o Reoliadau CIL 2010 (fel a'u diwygiwyd). Yn yr amgylchiadau hyn, ni ellir gwarantu y byddai tai o'r fath yn cael eu rhyddhau i'r farchnad agored. Nodwyd y byddai dileu Polisi 15 yn sicrhau y byddai'r Cynllun yn gyson gyda pholisi cynllunio cenedlaethol.

ATODIAD 2

9. MAPIAU COROPLETH AR GYFER Y DANGOSYDDION PERTHNASOL

9.1 CYMHAREB FFORDDIADWYAETH

9.1.1 2012




Dosbarthiad terfynol: 2012

Cymhareb o 10.0 rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm lleol yw'r trothwy dros ddewis yr ardaloedd mwyaf eithafol o ran y dangosydd hwn.

Y wardiau o fewn y categori uchaf:


Ward	Nifer y gwerthiannau	Canolrif pris tai ²	Canolrif incwm ³	Cyfradd prisiau tai i incwm
Aberdaron	8	£251,500	£20,927	12.0
Abersoch	12	£272,500	£22,759	12.0
Llanbedrog	11	£210,000	£20,503	10.2
Rhosneigr	30	£241,250	£23,594	10.2
Gwynedd & Ynys Môn	1,822	£140,125	£22,889	6.1



² Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Dir

³ Ffynhonnell: CACI PayCheck


9.1.2 2011



2011: Wardiau yn y categori uchaf


Cymhareb o 10.0 rhwng canolrif prisiau tai a chanolrif incwm lleol yw'r trothwy dros ddewis yr ardaloedd mwyaf eithafol o ran y dangosydd hwn.

Ward	Nifer y gwerthiannau	Canolrif pris tai	Canolrif incwm	Cyfradd prisiau tai i incwm
Abersoch	20	£311,250	£28,227	11.03
Llanengan	10	£285,000	£26,950	10.58
Gwynedd & Ynys Môn	1,971	£135,000	£23,807	5.7



9.2 CYMHAREB CHWARTEL ISAF


9.2.1 2012



Dosbarthiad terfynol: 2012

Cymhareb dros 15.0 rhwng prisiau tai chwartel isaf a'r incwm aelwydydd chwartel isaf yw'r trothwy dros ddewis yr ardaloedd mwyaf eithafol o ran y dangosydd hwn.


Ward	Prisiau tai chwartel isaf ⁴	Incwm aelwydydd chwartel isaf ⁵	Cyfradd chwartel isaf
Abersoch	£239,488	£12,571	19.1
Aberdaron	£195,625	£11,408	17.1
Gwynedd & Ynys Môn	£100,000	£11,786	8.3



⁴ Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Dir


⁵ Ffynhonnell: CACI PayCheck

9.2.2 2011




Dosbarthiad terfynol: 2011

Cymhareb dros 15.0 rhwng prisiau tai chwartel isaf a'r incwm aelwydydd chwartel isaf yw'r trothwy dros ddewis yr ardaloedd mwyaf eithafol o ran y dangosydd hwn.



9.3 PRISIO ALLAN O'R FARCHNAD


9.3.1 2012



Dosbarthiad terfynnol: 2012

80% o aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad yw'r trothwy dros ddewis yr ardaloedd mwyaf eithafol o ran y dangosydd hwn.

Ward	Nifer Gwerthiannau Tai 2011 ⁶	Pris Tai Chwartel Isaf (ar sail gwerthiannau 2012)	Nifer Aelwydydd ⁷	Aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad 2012 ⁸	
				Nifer	%
Abersoch	12	£239,488	570	532	93.4
Aberdaron	8	£195,625	454	405	89.2
Llanengan	9	£177,000	654	551	84.2
Tudweiliog	1	£175,000	427	352	82.5
